Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct



# SAYH Adroddiad gwahaniaethu hiliol

Tachwedd 2024

# “Mae swyddogion yr heddlu yn gweithredu’n deg ac yn ddiduedd. Ni fyddant yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon nac yn annheg."

Safonau Ymddygiad Proffesiynol i swyddogion heddlu (cydraddoldeb ac amrywiaeth)
o *Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020*



# Cynnwys


**Rhagair** **4**

**Ynghylch yr SAYH** **5**

Termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn 5

**Crynodeb gweithredol** **6**

Ein galwad i weithredu ar gyfer plismona 8

Ein hymrwymiad yn SAYH 8

**Cyflwyniad** **11**

Cefndir a chyd-destun hanesyddol 11

Llinell amser o ddigwyddiadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn 12

Deddfwriaeth ac egwyddorion plismona 14

Ein sail tystiolaeth a'n methodoleg 15

**Persbectifau ar wahaniaethau a thuedd hiliol** **17**

Teimlo cael eu gorblismona fel rhai a ddrwgdybir 18

Teimlo heb ddigon o warchodaeth fel dioddefwyr 18

**Teimlo'n cael eu trin yn annheg** **18**

Teimlo'n ofnus 18

**Anghydraddoldebau hiliol heb eu hesbonio mewn defnydd o bwerau** **21**

Pwerau stopio a chwilio a stereoteipiau 22

Safbwynt SAYH ar stopio a chwilio 30

Archwilio defnydd yr heddlu o rym 32

Tuedd oedolyneiddio 40

Diffyg cwrteisi a pharch 44

Methiannau i roi cymorth digonol i ddioddefwyr troseddau o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig 45

Rhannu cynnwys amhriodol, sarhaus a gwahaniaethol ar gyfryngau cymdeithasol 47

**Delio â honiadau o wahaniaethu ar sail hil yng nghwynion yr heddlu** **51**

**Casgliad a galwad i weithredu** **57**

**Cyhoeddiadau SAYH sy’n ymdrin â themâu’r adroddiad hwn** **58**

**Cyfeiriadau** **59**

**Cydnabyddiaethau** **61**

# Rhagair



Mae hanes hir sydd wedi'i ddogfennu'n dda am wahaniaethu ar sail hil mewn plismona. Mae’r hanes hwn wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu ac mae wedi’i ffurfio gan ddigwyddiadau trobwynt gan gynnwys llofruddiaeth hiliol Stephen Lawrence yn 1993 a’r ymchwiliad ac adroddiad dilynol gan Syr William Macpherson.

Yn yr adroddiad hwnnw, cadarnhaodd Macpherson brofiadau’r teulu Lawrence a llawer o bobl eraill o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ynghylch eu rhyngweithio â’r heddlu. Arweiniodd ei argymhellion at ddiwygiadau sylweddol mewn plismona a chyfrannodd at ymwybyddiaeth ac ymdrech ehangach i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil a thuedd hiliol.

Yn y cyd-destun hwn y daw pwysigrwydd system gwynion annibynnol i'r heddlu, a argymhellir gan Macpherson, i'r amlwg. Mae’n nodi pennod arwyddocaol yn ein hanes yn yr SAYH a phwysigrwydd dysgu ac atebolrwydd.

Er bod plismona wedi gwella wrth sicrhau bod pob cymuned yn cael ei thrin yn deg, mae problemau sylweddol o hyd o fewn plismona o ran hil. Mae hyn yn amlwg o'n gwaith, gwaith eraill, yr ystadegau sy'n ymwneud ag anghymesuredd ac o'r hyn y mae cymunedau'n ei ddweud wrthym.

Mae ein gwaith ar wahaniaethu ar sail hil wedi canolbwyntio ar archwilio, herio a mynd i'r afael â'r materion hyn a'r effaith a gânt ar hyder y cyhoedd mewn plismona a system gwynion yr heddlu. Mae wedi bod yn daith i ddysgu, gan ein helpu i wella ein gwaith ein hunain ac arfer plismona. Rhan o'r dysgu hwnnw yw sut i siarad mewn iaith sy'n atseinio â chymunedau. Mae'n meithrin ymddiriedaeth, yn annog ymgysylltu ac yn bwysicach fyth yn ein helpu i barhau i wella.

Mae’r adroddiad hwn yn dwyn ein tystiolaeth ynghyd ac yn galw am newid. Ategir hyn gan ganllawiau SAYH wedi’u diweddaru ar gyfer ymdrin â honiadau o wahaniaethu a phecyn cymorth ar gyfer y rhai sy’n ymdrin â chwynion. Gyda'i gilydd, rwy'n gobeithio y bydd y cynhyrchion hyn yn adnodd pwysig ar gyfer ysgogi gwelliannau ychwanegol o ran plismona ac ymdrin â chwynion yr heddlu. Meithrin gwell dealltwriaeth o wahaniaethu ar sail hil a'i effaith tra'n arwain camau gweithredu tuag at newid ystyrlon.

Hoffwn ddiolch i’r unigolion, grwpiau, cymunedau a rhanddeiliaid niferus am rannu eu profiadau a’u safbwyntiau. Hoffwn hefyd ddiolch i'n Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Wahaniaethu ar sail Hil ac aelodau ein Panel Ieuenctid am eu hadborth gonest a defnyddiol.

Mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i ymladd yn erbyn agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol er mwyn cryfhau hyder y cyhoedd mewn plismona. Trwy wneud hynny, gallwn sicrhau bod pawb, beth bynnag y bo'u hil neu ethnigrwydd, yn teimlo eu bod yn cael eu hamddiffyn a’u parchu, yn cael gwasanaeth sy’n diwallu eu hanghenion, ac yn galluogi’r heddlu i gyflawni eu dyletswyddau’n effeithiol.



**Rachel Watson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol



# Gwyboaetham SAYH

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yw corff gwarchod cwynion yr heddlu. Nid ni yw’r heddlu ac rydym yn gwbl annibynnol iddynt.

Rydym yn gosod y safonau ar gyfer system gwynion yr heddlu. Rydym yn sicrhau bod yr heddlu yn ymchwilio i gwynion amdanynt yn gywir. Yn ogystal, rydym yn cynnal adolygiad annibynnol o'r modd yr ymdrinnir â chwynion penodol gan yr heddlu os yw pobl yn anfodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'u cwyn. Rydym hefyd yn ymchwilio i'r digwyddiadau mwyaf difrifol a sensitif yn ymwneud â'r heddlu ein hunain.

Trwy ein gwaith, rydym yn dal yr heddlu i gyfrif pan aiff pethau o chwith. Mae gennym bwerau cyfreithiol i wneud argymhellion dysgu o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* ac argymell newidiadau i atal yr un camgymeriadau rhag digwydd eto. Rydym yn hyrwyddo safonau uchel o broffesiynoldeb ac atebolrwydd mewn plismona, gan ddefnyddio ein tystiolaeth i helpu plismona i ysgogi gwelliannau yn arferion yr heddlu er budd y cyhoedd a’r heddlu.

## Termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

Trwy gydol yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio’r termau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy’n cynnwys lleiafrifoedd Gwyn fel cymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma. Er hyn, rydym yn cydnabod bod iaith a therminoleg yn esblygu, bod llawer o wahanol grwpiau ethnig, ac nid yw eu profiadau yr un peth. Defnyddir y termau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig gydag ymwybyddiaeth o amrywiaeth a phrofiadau o fewn y cymunedau hyn. Mae croestoriad hil ac ethnigrwydd â rhyw, oedran, anabledd, a hunaniaethau eraill yn llywio profiadau unigol ymhellach.

**MAE SAYH YN CROESAWU**

**Trwy gydol ein gwaith, rydym wedi bod yn falch o glywed am strategaethau a chynlluniau i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil ym maes plismona. Er bod yn rhaid inni aros i weld tystiolaeth o’u heffaith, rydym yn croesawu’r ymdrechion hyn. Byddwch yn eu canfod wedi'u hamlygu trwy gydol yr adroddiad fel hyn.**

# Crynobgweithredol

Mae gwahaniaethu ar sail hil wedi bod yn broblem sylweddol mewn plismona am lawer o flynyddoedd. Mae'n sail i greu ein rhagflaenydd, Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) yn dilyn ymchwiliad Syr William Macpherson a'r adroddiad dilynol i lofruddiaeth hiliol Stephen Lawrence.

Trwy sicrhau bod cwynion difrifol a materion ymddygiad yn cael eu trin yn ddiduedd ac yn drylwyr, rydym yn chwarae rhan hanfodol wrth ysgogi gwelliannau mewn plismona trwy ddysgu ac atebolrwydd.

Fodd bynnag, mae ymladd yn erbyn gwahaniaethu hiliol yng ngwasanaethau heddlu yn fater cymhleth a hynod o sensitif. Mae cefndir hanesyddol tuedd a gwahaniaethu hiliol mewn plismona wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth dwys rhwng cymunedau wedi'u heffeithio a'r heddlu, sy'n amlwg mewn amseroedd hollbwysig yn y gwasanaethau heddlu. Bu llofruddiaeth George Floyd gan swyddog heddlu o'r Unol Daleithiau a phrotestiadau Black Lives Matter yn ystod haf 2020 fel catalydd, gan annog mwy o graffu ar blismona yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn clywed dro ar ôl tro drwy ein gwaith ymgysylltu bod cymunedau Du yn arbennig yn teimlo eu bod yn cael eu gorblismona fel rhai a ddrwgdybir a'u bod yn cael eu tanamddiffyn fel dioddefwyr. Priodolir hyn i ganfyddiad o wahaniaethu parhaus ar sail hil, y mae tystiolaeth ohono gan ei hymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid.

Mae defnydd anghymesur o bwerau'r heddlu, megis stopio a chwilio a defnyddio grym, yn cyfrannu at y canfyddiad parhaus hwn, yn enwedig pan na ellir rhoi esboniad am y gwahaniaethau hiliol sy'n bodoli. Mae'r angyhydraddoldebau hyn, yr adroddir amdanynt bob blwyddyn heb esboniad pendant, yn awgrymu'r presenoldeb posibl o broblemau systemig sylfaenol ac anghydraddoldebau strwythurol.

Er ein bod yn cydnabod bod plismona wedi cymryd camau ystyrlon tuag at sicrhau bod pob cymuned yn cael ei thrin yn deg ac yn ddiduedd, mae problemau sylweddol o hyd yn ymwneud â hil o fewn plismona. Mae ein canfyddiadau, ynghyd â data ar wahaniaethau hiliol ac adborth gan gymunedau a rhanddeiliaid, yn darparu tystiolaeth glir ac mae consensws eang o fewn plismona a'r gymdeithas ehangach fod y problemau systemig hyn yn dal i fodoli. Fodd bynnag, mae rhai yn amharod i ddefnyddio'r geiriau 'hiliaeth sefydliadol'.

Roedd Macpherson yn glir ynghylch beth yw hiliaeth sefydliadol - methiant ar y cyd i ddarparu gwasanaeth proffesiynol priodol i bobl oherwydd eu lliw, diwylliant neu darddiad ethnig. Credwn ei bod yn bwysig gwrando ar y cymunedau hynny sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y materion systemig hyn ac maent yn glir: mae iaith yn bwysig.

Nid nod y gwaith hwn yw gwneud datganiadau gwleidyddol, brandio pob heddwas yn hiliol na diystyru'r cynnydd pwysig a wnaed. Mae hyn yn ymwneud â bod yn glir bod problem yn dal i fodoli a siarad amdani mewn ffordd sy'n atseinio â'r cymunedau hynny yr effeithir arnynt fwyaf, fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ac yn teimlo'n hyderus i weithio gyda'r heddlu i barhau i wneud cynnydd. Dim ond trwy weithio gyda'r cymunedau hynny y gall plismona obeithio cyflawni nod Macpherson o ddileu rhagfarn ac anfantais hiliol' ac i arddangos tegwch ym mhob agwedd o blismona.

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ein gwaith thematig i archwilio, herio a ymladd yn erbyn â gwahaniaethu ar sail hil mewn plismona. Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn rydym wedi cyhoeddi diwygiadau i'r canllawiau ar gyfer ymdrin â honiadau o wahaniaethu, a grëwyd yn wreiddiol gan yr IPCC, a phecyn cymorth ar gyfer y rhai sy'n ymdrin â chwynion yr heddlu. Rydym yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith i helpu heddluoedd i gymryd camau i ailadeiladu ymddiriedaeth a hyder mewn plismona a'r system gwynion.

Mae ein cyhoeddiadau cynharach - sy'n canolbwyntio ar Taser, stopio a chwilio a thrin cwynion - ar y cyd â'n hymchwiliadau ac adolygiadau annibynnol, yn rhan o'n hymdrech barhaus i helpu plismona i ysgogi gwelliannau yn yr ardal hirsefydlog hon o bryder.

## Ein sylfaen dystiolaeth a'n methodoleg

Mae ein gwaith ar wahaniaethu ar sail hil yn cynnwys dros 300 o ymchwiliadau ac adolygiadau gan yr IOPC o rai cwynion lle mae gwahaniaethu ar sail hil yn ffactor posibl i'w ystyried. Mae ein hadolygiadau o gwynion yn cynnwys pobl sy'n anfodlon â'r ffordd y mae'r heddlu wedi ymdrin â nhw

Ynghyd â'n hachosion, mae ein tystiolaeth yn dwyn ynghyd:

- safbwyntiau a phryderon a fynegwyd gan grwpiau cymuned a rhanddeiliaid i SAYH trwy ein gwaith ymgysylltu
- data o'n harolygon traciwr canfyddiadau'r cyhoedd ac arolygon rhanddeiliaid, a
- data cyhoeddedig ac ymchwil arall

Oherwydd natur ein gwaith, sy'n canolbwyntio ar y materion mwyaf difrifol a sensitif, rydym yn aml yn gweld plismona'n uniongyrchol pan fydd materion yn codi. Mae'r rhain yn aml yn ymwneud â chwynion neu faterion ymddygiad sy'n canolbwyntio ar weithredoedd yr unigolyn o'r swyddogion a staff yr heddlu. Rydym yn derbyn nad yw hyn yn rhoi darlun cwbl gynrychioliadol o blismona, a dyna pam y cynhwyswyd tystiolaeth ehangach. Fodd bynnag, mae'r achosion rydym yn ymchwilio'n annibynnol iddynt, ac yn eu hadolygu yn cael cryn ddylanwad ar hyder cyhoeddus ac yn cynnig cyfle sylweddol ar gyfer dysgu a gwelliant.

Trwy ein tystiolaeth ar y cyd, canfuom :

- Nad yw gwahaniaethu ar sail hil yn cael ei ddeall yn llawn ac weithiau mae'n rhy hawdd ei 'esbonio' o fewn plismona fel rhywbeth gwahanol i wahaniaethu.
- Lle mae'r cyhoedd yn teimlo eu bod wedi dioddef gwahaniaethu, mae'n gadael effaith drom arnynt, yn enwedig ar blant, nad yw wastad yn cael ei ddeall na'i dderbyn gan yr heddlu.
- Mae'r canfyddiad o wahaniaethu ar sail hil a thuedd mewn rhai arferion heddlu

megis stopio a chwilio a defnyddio grym yn tanseilio cyfreithlondeb, ymddiriedaeth a hyder mewn plismona.

- Gall diffyg ymddiriedaeth ddwys mewn plismona ymhlith rhai cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ymestyn i hyder isel yn system gwynion yr heddlu. Gall hyn danseilio hyder ymhellach os na chaiff cwynion a/neu ymchwiliadau eu trin yn effeithiol neu os canfyddir nad ydynt yn cael eu trin yn effeithiol.

Rydym yn croesawu ffocws cynyddol Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol a gwahaniaethu ar sail hil o fewn plismona. Canfuom dystiolaeth o gynlluniau plismona lleol a chenedlaethol (rhai ohonynt yn cael eu gweithredu o'r newydd ac eraill yn fwy datblygedig) a gynlluniwyd i fynd i'r afael ag anghyfraddolderbau hiliol, gwella cymhwysedd diwylliannol yn arferion yr heddlu, a gwella safonau wrth ymdrin â chwynion yr heddlu sy'n ymwneud â gwahaniaethu.

Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i ddangos bod plismona yn deg a gwella lefelau ymddiriedaeth a hyder ymhlith cymunedau Du, Asiaidd a ethnig leiafrifol ethnig sydd am weld newidiadau diriaethol, yn enwedig mewn plismona rheng flaen.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn adnodd gwerthfawr i gefnogi ac arwain cynnydd ychwanegol mewn arferion plismona.

## Ein galwad i weithredu yw i blismona :

- Weithredu newid wedi'i ganolbwyntio a mesuradwy ar gyfer cymunedau lleol ynghylch:
  - Anghydraddoldebau hiliol a'r defnydd o bwerau'r heddlu, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â phlant. (Yn yr adroddiad hwn, diffinnir y term plant fel rhai o dan 18 oed). Dylai hyn gynnwys ffocws ar wella stopio a chwilio, defnydd o arferion grym a chwilio noeth, trwy ddarparu trefniadau diogelu effeithiol i liniaru tuedd oedolionyddio a sicrhau triniaeth deg.
  - Ymdriniaeth yr heddlu â chwynion sy'n ymwneud â gwahaniaethu – sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn effeithiol y tro cyntaf yn unol â (chanllawiau diwygiedig SAYH ar gyfer ymdrin â honiadau o wahaniaethu)

## Ein hymrwymiad yn SAYH yw i:

- Gydweithio â phlismona, comisiynwyr heddlu a throseddu, meiri a rhanddeiliaid allweddol eraill i wella ymddiriedaeth a hyder mewn plismona a system gwynion yr heddlu. Darparu cymorth i wella'r modd yr ymdrinnir â honiadau sy'n ymwneud â gwahaniaethu.



### Tuedd oedolyneiddio

Mae rhagfarn oedolyneiddio yn fath o ragfarn lle mae plant o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu hystyried yn fwy 'ymwybodol am y strydoedd', yn fwy 'aeddfed', yn llai diniwed ac yn llai agored i niwed na phlant eraill. Mae hyn yn effeithio ar blant Du yn enwedig, a allai gael eu hystyried yn bennaf fel bygythiad yn hytrach na phlentyn sydd ag angen cymorth (Davis a Marsh, 2020; Canolfan Cyfraith Georgetown ar Dlodi ac Anghydraddoldeb, 2019). Mae'n bosibl hefyd y gallai plant sydd wedi cael eu hoedolyneiddio gael eu gweld fel rhai sydd â mwy o ddealltwriaeth o'u gweithredoedd a chanlyniadau eu gweithredoedd. *NSPCC, Diogelu plant sy'n dod o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (2022)*

**“Nid yw dileu rhagfarn ac anfantais hiliol a dangos tegwch ym mhon agwedd o blismona wedi cael ei gyflawni o hyd dwy fyneddar-hugain ymlaen, ac rydym wedi nodi meysydd lle mae rhy ychydig o gynnydd wedi cael ei wneud oherwydd diffyg ffocws ac atebolrwydd ar faterion hil.”**

Y Pwyllgor Materion Cartref, Adroddiad Macpherson: Dwy flynedd ar hugain yn ddiweddarach



# Cyflwyniad

## Cefndir a chyd-destun hanesyddol

Yn SAYH, rydym yn dod ar draws amrywiaeth o achosion yn ymwneud ag ystod eang o faterion. Mae meysydd o bryder hefyd yn dod i'r amlwg o'r sgyrsiau a gawn â chymunedau a rhanddeiliaid. Gwahaniaethu mewn plismona yw un o'r pryderon a godwyd amlaf gan gymunedau a rhanddeiliaid drwy ein gwaith ymgysylltu. Mae materion sy'n ymwneud yn benodol â hil yn bryder arbennig. Maent yn aml yn dod i'r amlwg yn ystod eiliadau hollbwysig mewn plismona, megis digwyddiadau proffil uchel neu brotestiadau cyhoeddus.

Yn 2020 gwelwyd protestiadau byd-eang yn dilyn llofruddiaeth George Floyd gan heddwas o'r Unol Daleithiau. Fe wnaeth y protestiadau hyn ledled y byd, gan gynnwys y DU, am hiliaeth systemig a gwahaniaethau hiliol ysgogi craffu o'r newydd ar arferion plismona yng Nghymru a Lloegr a'r ffordd y caiff cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eu trin. Fe gyflymodd ein hymdrechion i ddod â chynlluniau ymlaen i lansio ein ffocws ar wahaniaethu ar sail hil mewn plismona ym Medi 2020 i archwilio, herio a mynd i'r afael â'r pryderon hyn o fewn plismona a rhannu'r hyn a ddysgwyd i wella plismona ac ymdrin â chwynion yr heddlu.

**Mae'n rhaid i sefydliadau allu herio eu hunain a chael eu dwyn i gyfrif yn gyhoeddus am fynd i'r afael â hiliaeth o fewn strwythurau neu bolisïau yn ogystal ag o fewn agweddau unigol.**
*Pwyllgor Materion Cartref*
*Adroddiad Macpherson: Dwy flynedd ar hugain ymlaen*

Gwyddom fod gwahaniaethu, tuedd ar sail hil, a'r defnydd anghymesur o rai o bwerau'r heddlu yn tanseilio hyder y cyhoedd. Mae'n faes pryder hirsefydlog sydd wedi'i ffurfio gan ddigwyddiadau allweddol, newidiadau mewn deddfwriaeth ac adroddiadau amrywiol dros ddegawdau. O adroddiad Scarman ym 1981, adroddiad Macpherson ym 1999, i adolygiad y Farwnes Casey i safonau ymddygiad a diwylliant mewnol Gwasanaeth Heddlu Llundain yn 2023. Mae wrth wraidd diffyg ymddiriedaeth parhaus ymhlith rhai cymunedau sydd wedi'i wreiddio mewn profiadau hanesyddol o hiliaeth amlwg mewn plismona (gweler papur polisi'r llywodraeth Prydain Gynhwysol: ymateb y llywodraeth i'r Comisiwn ar Anghydraddoldebau Hiliol ac Ethnig) Amlygwyd hyn ymhellach gan fod yr heddlu wedi'u heithrio o *Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976* tan y flwyddyn 2000 pan ddiwygiwyd y Ddeddf i gynnwys plismona ac awdurdodau cyhoeddus eraill. Mae'r heriau hirsefydlog hyn yn cael eu cydnabod yng Nghynllun Gweithredu Hil yr Heddlu Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Coleg Plismona. Maent hefyd yn rhan o hanes ein rhagflaenydd, Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC).

Yn dilyn llofruddiaeth hiliol Stephen Lawrence, argymhellodd Syr William Macpherson *“y dylai'r Ysgrifennydd Cartref, gan gymryd i ystyriaeth y mynegiant cryf o ganfyddiad y cyhoedd yn hyn o beth, ystyried pa gamau y gellir ac y dylid eu cymryd i sicrhau bod cwynion difrifol yn erbyn swyddogion heddlu yn cael eu hymchwilio'n annibynnol. Mae ymchwiliad i swyddogion heddlu gan eu Gwasanaeth Heddlu eu hunain neu Wasanaeth Heddlu arall yn cael ei ystyried yn anghyfiawn*

# Llinell amser o ddigwyddiadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn

**Terfysgoedd Brixton**

## 1981

Wedi'u dechrau o densiynau hiliol ac anfodlonrwydd ag arferion plismona yn ardal Brixton yn Llundain, amlygodd y terfysgoedd faterion yn ymwneud â gwahaniaethu gan yr heddlu ac ysgogodd drafodaethau am ragfarn hiliol o fewn plismona.

## 1981

**Yr Adroddiad Scarman**

Mewn ymateb i derysgoedd Brixton, argymhellodd Adroddiad yr Arglwydd Scarman ddiywgiadau i'r heddlu, gan gynnwys plismona cymunedol a pherthnasoedd gwell â chymunedau Du a lleiafrifol.

Marwolaeth **Stephen Lawrence**

## 1993

Amlygodd llofruddiaeth Stephen Lawrence â chymhelliant hiliol, hiliaeth sefydliadol o fewn yr Heddlu Metropolitan ac arweiniodd at alwadau am ddiwygiadau mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol.

## 1999

**Yr Adroddiad Machpherson**

Datgelodd yr ymchwiliad i lofruddiaeth Stephen Lawrence, a gadeiriwyd gan Syr William Macpherson, hiliaeth sefydliadol o fewn yr Heddlu Metropolitan ac arweiniodd at newidiadau canolog i frwydro yn erbyn hiliaeth, anghydraddoldebau a thuedd hiliol mewn plismona.

## 2000

**Y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Deddf Diwygio)**

Ymestyn Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 i blismona ac awdurdodau cyhoeddus eraill. Cyn y newid hwn, roedd plismona wedi'i eithrio.

## 2017

**Adolygiad Lammy**

Dan arweiniad David Lammy AS, archwiliodd ragfarn hiliol yn system cyfiawnder troseddol y DU, gan gynnwys plismona, a gwnaeth argymhellion i fynd i'r afael ag anghyfartaledd.

**Protestiadau Black Lives Matter**

## 2020

Wedi'i danio gan farwolaeth George Floyd yn yr Unol Daleithiau yn 2020, cafodd effaith sylweddol ar ddisgwrs cyhoeddus yn y DU, gan ysgogi trafodaethau am hiliaeth mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol.

## 2023

**Adroddiad Barwnes Casey**

Wedi dod o hyd i hiliaeth sefydliadol, casineb at fenywod a homoffobia yn yr Heddlu Metropolitan.

## 2024

**Rhan un o adroddiad Angiolini**

Mae'r adroddiad yn gwneud 16 o argymhellion a luniwyd i sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i atal y rhai yr ymddiriedwyd pwerau'r heddlu iddynt rhag camddefnyddio'r pŵer hwnnw.



*yn gyffredinol, ac nid yw'n ennyn hyder y cyhoedd."* (Argymhelliad 58 – Ymchwiliad Stephen Lawrence 1999).

Mae gwahaniaethu hiliol yn cyfeirio at driniaeth annheg neu ragfarn yn erbyn unigolion neu grwpiau ar sail eu hil neu hil canfyddedig. Gall amlygu ei hun mewn sawl ffurf, gan gynnwys triniaeth anghyfartal o unigolion, aflonyddu, stereoteipio a hiliaeth sefydliadol – yr olaf a ddiffiniwyd gan y diweddar Syr William Macpherson mewn perthynas â phlismona.

Mae anghymesuredd yn y defnydd o bwerau'r heddlu yn cyfeirio at y sefyllfa lle mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu heffeithio gan weithredoedd yr heddlu yn fwy nag eraill, o gymharu â'u cyfran o'r boblogaeth. Mae hyn yn golygu y gall rhai grwpiau gael eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli yn rhyngweithiadau'r heddlu.

Rydym wedi gweld gorgynrychiolaeth o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan y defnydd o rai pwerau'r heddlu megis stopio a chwilio neu ddefnyddio grym. Adroddir ar y gwahaniaethau hiliol ac ethnig hyn bob blwyddyn heb unrhyw esboniad gwirioneddol o'u hachos, er gwaethaf gadael effaith drom ar unigolion a chymunedau. Mae'r materion strwythurol ehangach sy'n dylanwadu ar y digwyddiadau hyn yn aml yn cael eu cysgodi gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu unigol. Gall hyn arwain at ddiffyg dealltwriaeth o'r achosion sylfaenol ac o ganlyniad, atebion llai effeithiol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Rydym hefyd wedi nodi o'n gwaith nad yw'r mathau mwy cynnil o wahaniaethu a thuedd hiliol wastad yn cael eu deall yn llawn nac yn cael eu 'hegluro'n' rhy hawdd o fewn plismona. Diffiniodd Syr William Macpherson hyn fel rhywbeth sy'n "*cael ei weld neu ei ganfod mewn prosesau, agweddau ac ymddygiad sy'n gyfystyr â gwahaniaethu trwy ragfarn , anwybodaeth, diffyg ystyriaeth a stereoteipio hiliol anymwybodol sy'n rhoi pobl o leiafrifoedd ethnig dan anfantais."* (Ymchwiliad Stephen Lawrence 1999).

Gall fod yn anodd nodi'r mathau mwy cynnil o wahaniaethu ar sail hil mewn plismona a'u profi'n derfynol. Gall diffyg tystiolaeth uniongyrchol ei gwneud hi'n heriol mynd i'r afael â phryderon yn effeithiol a gall arwain at ymatebion amddiffynnol. Gall hyn dynnu sylw oddi ar y camau angenrheidiol i fynd i'r afael ag arferion ac ymddygiadau gwahaniaethol a ganfyddir. Yn hytrach, mae'r ffocws yn symud i gwestiynu bwriadau a chymeriad yr unigolyn yn hytrach na chyfeirio'r gweithredoedd a'r ymddygiadau eu hunain, a'u heffaith. Gall yr heriau hyn lesteirio deialog, cyfleoedd dysgu ac ymdrechion ystyrlon i gyflawni canlyniadau tecach. Mae'n hanfodol fod pob cymuned yn teimlo ei bod yn cael ei hamddiffyn a'i pharchu gan yr heddlu a bod ganddynt wasanaeth sy'n cael ei ystyried yn deg ac yn ddiduedd. Mae hyn yn helpu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr heddlu a chymunedau gan arwain at ganlyniadau gwell i bawb dan sylw.

> ***"…mae angen i blismona dderbyn y gall y swydd hefyd ddenu ysglyfaethwyr a bwlis – y rhai sy'n deisyfu pŵer dros eu cyd-ddinasyddion, a defnyddio'r pwerau hynny i achosi niwed a gwahaniaethu. Mae angen i holl blismona Prydain fod yn ymwybodol o'r risg ddifrifol iawn hon. Mae angen iddo eu cadw allan pan geisiant ddod i mewn, i'w tynnu allan lle maen nhw'n bodoli, ac i ddiogelu yn erbyn yr effeithiau cyrydol mae eu gweithredoedd yn eu cael ar ymddiriedaeth, hyder ac egwyddorion sylfaenol Peelian o blismona trwy gydsyniad."***
> *Y Farwnes Louise Casey*
> *Adolygiad y Farwnes Casey*

Er bod plismona wedi gwneud rhywfaint o gynnydd dros y degawdau o ran gweithredu'r 70 o argymhellion a amlinellwyd gan Syr William Macpherson i ddiwygio'r heddlu a mynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol, mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Mae diffyg profiad uniongyrchol o wahaniaethu ar sail hil gan lawer o bobl o fewn plismona ac atebolrwydd yr heddlu ac efallai nad ydynt yn llwyr ddeall rhagfarnau yn erbyn grwpiau sy'n wahanol i'w rhai eu hun. Fodd bynnag, maent yn bennaf gyfrifol am arfer awdurdod yr heddlu, ymchwilio i wahaniaethu ar sail hil a phennu canlyniadau, sy'n her wirioneddol. Felly, mae mynd i'r afael â materion sy'n ymwneudf a hil yn faes allweddol ar gyfer dysgu a datblygu.

## Deddfwriaeth ac egwyddorion plismona

Mae gan yr heddlu gyfrifoldeb i ymateb yn effeithiol pan ganfyddir ymarferion ac ymddygiadau gwahaniaethol, yr arsylwir arnynt neu yr adroddir amdanynt. Ategir hyn gan fframwaith deddfwriaethol clir sy'n llywio arferion plismona. Mae gwyliadwriaeth barhaus yn hanfodol i sicrhau bod y gyfraith ac egwyddorion plismona yn cael eu cynnal yn gyson.

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r fframweithiau deddfwriaethol allweddol a'r egwyddorion plismona sy'n arwain plismona mewn perthynas â gwahaniaethu yn cynnwys:

- *Deddf Cydraddoldeb 2010:* Mae hon yn gwahardd gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ar sail nodweddion gwarchodedig megis hil. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar gyfer plismona a ddilynodd argymhelliad Macpherson "y dylai holl rym y ddeddfwriaeth cysylltiadau hiliol fod yn berthnasol i bob swyddog heddlu". (Ymchwiliad Stephen Lawrence 1999).
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED): Wedi'i hamlinellu yn *Neddf Cydraddoldeb 2010,* mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys plismona, gymryd camau rhagweithiol i atal gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin perthnasoedd cadarnhaol â holl aelodau'r gymuned, beth bynnag y bo'u nodweddion gwarchodedig.
- *Deddf Hawliau Dynol 1998:* Mae hon yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yng nghyfraith y DU ac yn gwarantu hawliau a rhyddid sylfaenol gan gynnwys Erthygl 2 (hawl i fywyd) ac Erthygl 3 (gwahardd artaith a thriniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol). Mae'r hawliau hyn yn gosod rhwymedigaethau ar blismona i sicrhau nad yw eu gweithredoedd yn gwahaniaethu ac maen nhw'n parchu hawliau dynol.
- Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020: Mae'r rheoliadau hyn yn amlinellu'r safonau ymddygiad proffesiynol a ddisgwylir gan swyddogion heddlu. Mae'r rheoliadau hyn yn ymdrin â meysydd fel cydraddoldeb ac amrywiaeth, gonestrwydd ac uniondeb ac awdurdod a pharch. Gall torri'r safonau hyn arwain at gamau disgyblu, gan gynnwys diswyddo o'r heddlu.
- Cod Moeseg: Mae'r Coleg Plismona wedi datblygu Cod Moeseg ar gyfer plismona yng Nghymru a Lloegr, sy'n nodi'r egwyddorion a'r safonau ymddygiad proffesiynol a ddisgwylir gan swyddogion a staff yr heddlu. Mae'r Cod yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â thegwch, parch a pheidio â gwahaniaethu.

## Ein sylfaen dystiolaeth a'n methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn dod â'n canfyddiadau ynghyd i helpu plismona i ysgogi gwelliannau mewn plismona ac ymdrin â chwynion yr heddlu ar faterion sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil. Maer ein corff o dystiolaeth yn cynnwys:

- dros 300 o achosion SAYH (ymchwiliadau a rhai cwynion a ddaeth i'w defnyddio ar gyfer adolygiad - lle'r oedd pobl yn anfodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'u cwyn gan yr heddlu)
- safbwyntiau a phryderon a fynegwyd gan grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid i SAYH trwy ein gwaith ymgysylltu
- data o'n harolygon traciwr canfyddiadau'r cyhoedd ac arolygion y rhanddeiliaid
- data ac ymchwil cyhoeddedig

Ein hymateb yw edrych y tu hwnt i gyfarfyddiadau unigol i nodi tueddiadau a phatrymau a chodi ymwybyddiaeth o ganfyddiadau allweddol i gefnogi newidiadau yn arferion yr heddlu. Rydym yn annog diwylliant plismona agored ac ymatebol ac yn helpu i sicrhau bod gennym wasanaeth heddlu lle mae pob cymuned yn teimlo ei bod yn cael ei hamddiffyn a'i pharchu gan yr heddlu.

Mae ein sylfaen dystiolaeth yn canolbwyntio ar ryngweithio'r heddlu ag aelodau'r cyhoedd o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Nid yw'n cipio profiadau swyddogion a staff heddlu o'r cymunedau hyn ond mae'n cydnabod y gallai rhai o'r materion a godwyd yn yr adroddiad adlewyrchu eu pryderon. Er nad yw o fewn cwmpas y gwaith hwn, mae'n parhau i fod yn hanfodol i blismona fynd i'r afael yn rhagweithiol â gwahaniaethu a rhagfarn ar sail hil yn y gweithle.

Rydym yn derbyn nad yw ein gwaith yn rhoi darlun cwbl gynrychioliadol o blismona. Fel arfer byddwn yn arsylwi plismona ar gyfer y digwyddiadau mwyaf difrifol a sensitif yn unig, lle mae materion wedi codi. Mae'r rhain yn aml yn ymwneud â chwynion neu faterion ymddygiad sy'n canolbwyntio ar weithredoedd unigol

**“Mae angen i blismona sylweddoli yn llawn maint y problemau diwylliannol y mae’n eu hwynebu a’r ffordd y mae hyn yn effeithio ar y cyhoedd y mae’n eu gwasanaethu. Mae angen iddo wneud mwy na gwneud newidiadau ychwanegol i bolisïau, canllawiau a hyfforddiant, er bod y rhain yn bwysig a gwerthfawr.**

**Mae angen i holl arweinyddion plismona ailfeddwl yn sylfaenol am sut maen nhw'n arwain eu sefydliadau i sicrhau nad yw mathau penodol o ymddygiad, o'r annerbyniol i'r troseddol, byth yn cael eu goddef.”**

(Ymchwiliad Angiolini, 2024)



# Persbectifau arwahaniaethuathueddhiliol

Mae gwrando ar y safbwyntiau a’r pryderon a fynegwyd gan achwynwyr, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid i SAYH drwy ein gwaith ymgysylltu yn elfen hanfodol o’n corff tystiolaeth. Mae wedi amlygu materion a phryderon systemig sydd ddim wastad yn cael eu hadlewyrchu mewn dadansoddiadau a ysgogir gan ddata, ond sydd yr un mor bwysig ar gyfer canlyniadau dysgu.

Mae ein hachosion wedi cynnwys dynion a bechgyn Du ifanc yn bennaf, ond rydym yn gwybod o'n gwaith ymgysylltu, ein hymchwiliadau a'n hadolygiadau o gwynion bod gwahaniaethu ar sail hil hefyd yn effeithio ar fenywod a merched ac ethnigrwyddau eraill yn yr un modd. Mae’r profiadau croestoriadol o hil a rhyw a nodweddion gwarchodedig eraill yn amlygu'r ffurfiau lluosog o wahaniaethu y mae’n rhaid i blismona eu deall a mynd i'r afael â nhw er mwyn gwasanaethu cymunedau amrywiol yn well. Ategir hyn yn Rhan 1 o adroddiad y Fonesig Eilish Angiolini i dreisio a llofruddiaeth Sarah Everard

**Argymell 14:**
**Diwylliant cadarnhaol a dileu camymddwyn neu droseddoldeb yn aml yn cael eu hesgusodi fel ‘cellwair’**
**Ar unwaith, dylai pob heddlu ymrwymo’n gyhoeddus i fod yn sefydliad gwrthrywiaethol, gwrthfisogynistaidd, gwrthhiliol er mwyn mynd i'r afael â, deall a dileu rhywiaeth, hiliaeth a casineb at fenywod, gan gyfrannu at ddiwylliant cadarnhaol ehangach i ddileu pob math o wahaniaethu gan y proffesiwn. Mae hyn yn cynnwys ymateb yn llawn – a chymryd camau i gael gwared â'r - hyn a elwir yn ‘gellwair’ sy’n aml yn cuddio neu’n esgusodi ymddygiad gwael yn rhengoedd yr heddlu.**

Mae'r cyfyngiadau â data ar wahaniaethu ar sail hil ym maes plismona yn deillio o ffactorau amrywiol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, heriau mesur ac ymgysylltu wrth gasglu a dadansoddi data, adrodd a ysgogir gan yr heddlu ac ansawdd data. Mae'r cyfyngiadau hyn yn dystiolaeth ychwanegol o'r broblem ac fe'u gwneir yn fwy anodd pan fo'r canfyddiad a'r profiad o wahaniaethu yn oddrychol. Rydym hefyd yn gwybod pan fydd data yn cael eu casglu a'u cyhoeddi ar ryngweithiadau heddlu â'r cyhoedd, megis ystadegau stopio a chwilio, cyfraddau arestio a digwyddiadau defnydd grym, efallai na fydd y rhain yn cipio graddau llawn unrhyw faterion perthynol i anghydraddoldebau hiliol neu ymarferion gwahaniaethol.

Trwy ein hymgysylltiad ag achwynwyr, teuluoedd, cymunedau a rhanddeiliaid, rydym wedi cael dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o effaith gwahaniaethu ar sail hil, a sut mae rhai pobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn gweld plismona i fod yn wahaniaethol. Mae rhai o'r profiadau personol a rannwyd â ni ac a adroddwyd yn gyhoeddus wedi'u crynhoi isod.

## Teimlo wedi'u gorblismona fel rhai dan amheuaeth

*“Teimlo pe byddai person ifanc Gwyn a Du wedi'u gwisgo'n ddu, byddai'r heddlu'n stopio'r person Du, gan y canfyddir Du yn beryglus.”*

*“Rwy’n deall weithiau pan fyddaf yn cael fy stopio a’m chwilio bod yr heddlu yn gwneud eu gwaith yn unig, ond weithiau gall fod yn llawer rhy ymosodol.”*

*“Rwy’n teimlo fy mod yn cael fy mhroffilio llawer mwy oherwydd fy mod yn fachgen ifanc du er nad wyf yn gwneud unrhyw beth o’i le.”*

## Teimlo wedi'u tanamddiffyn fel dioddefwyr

*“Fe gymerodd llofruddiaeth a threisio Sarah Everard i godi materion y mae cymunedau Du wedi bod yn lleisio ers blynyddoedd.”*

*“Roedd menywod du mewn sefyllfaoedd camdriniaeth domestig yn teimlo nad oedd eu bywydau’n cario’r un gwerth â bywydau menywod eraill ac roedd hyn yn amlwg yn y ffordd y maent yn cael eu trin gan yr heddlu.”*

*“Dydw i ddim yn ymddiried ynddyn nhw [yr heddlu] i amddiffyn fi na fy mhlant.”*

*"Wedi ffieiddio, fe'n magwyd i gredu bod yr heddlu yno i'n diogelu ond mewn gwirionedd mae'r gwrthwyneb yn wir. Nawr, nid yn unig nad yw lleiafrifoedd yn ymddiried yn yr heddlu, ond ni all merched ymddiried yn yr heddlu."*

## Teimlo fel eich bod yn cael eich trin yn annheg

*Rydw i wedi cael fy stopio sawl gwaith, weithiau maen nhw wedi bod yn stopiau ‘da’, lle rydw i wedi cael fy nhrin yn deg ac wedi cael ymddiheuriad, ac rwy’n deall y rhesymau, ond weithiau dydw i ddim yn cael fy nhrin yn deg.”*

## Teimlo'n ofnus

*Esboniodd un person ifanc pe byddai swyddog heddlu yn dod ato yna byddai’n naturiol yn disgwyl i rywbeth ddigwydd, a’i fod yn gwybod bod pobl eraill yn rhedeg i ffwrdd oherwydd “yn amlwg yn ein cymunedau (Du) dydyn ni ddim yn teimlo’n ddiogel o gwmpas yr heddlu.”*



*Pan fydd disgrifiad o rywun a ddrwgdybir yn cael ei rhoi i swyddogion, e.e., person Du ifanc, dillad tywyll, mae'n aml yn ymwneud â'r rhan fwyaf o bobl ifanc Du mewn gwisg ysgol. Dywedodd y bobl ifanc nad ydyn nhw’n teimlo’n gyfforddus yn gwisgo dillad a fyddai’n gwneud iddyn nhw sefyll allan, hyd yn oed os yw’n ei gwneud hi’n haws i’r heddlu eu dileu.*

Mae ein Traciwr Canfyddiadau Cyhoeddus 2023/24 yn codi pryderon am lefelau hyder yn yr heddlu. Ar gyfer pobl sy'n uniaethu yn Ddu, roedd 45% yn gadarnhaol. Roedd pobl o etifeddiaeth Asiaidd a chymysg yn cyfrif am 44%, tra bod unigolion Gwyn yn cynrychioli 48%. Mae rhaid tynnu sylw at y lefelau hyder hyn.

*Rydym yn gwybod bod yr heddlu yn trin pobl Ddu yn wahanol. "Dim ond eisiau dweud yn onest... Dyna'r realiti... Gofynnwyd i mi pan oeddwn i'n mynd i ddod yma a oedd gen i brofiad uniongyrchol, ac roedd hynny'n fy synnu, oherwydd yn byw mewn cymuned lle rydych yn gwybod bod eich cymuned yn cael ei thrin yn wahanol, nid oes un ohonom nad oes ganddynt brofiad uniongyrchol."*
*(Tyst i Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref)*

"Mae gennym heddlu sy'n hiliol yn sefydliadol mewn cyd-destun cymdeithas sy'n hiliol yn sefydliadol." Nid dyma'r unig sefydliad ac nid oes angen hyfforddiant yno'n unig, mae'n rhaid iddo fod ym mhobman. Nid yw’n ymwneud â hyfforddiant yn unig; mae'n ymwneud â chymryd cyfrifoldeb efallai na fydd hyn yn effeithio arnaf i na fy mhlant, ond mewn gwirionedd fy nghyfrifoldeb i yw gwneud rhywbeth am hyn, oherwydd ni all y pwysau fod ar gymunedau Du a lleiafrifoedd ethnig i wella hyn pan fyddwn hefyd yn delio pob dydd ag effaith wirioneddol byw gydag ef.

*Mae’n rhaid i rywun arall gymryd rhywfaint o arweiniad ar hyn a [dweud], “Rydym yn mynd i wneud rhywbeth, fel pobl Gwyn, fel y gymuned Wen, y grŵp dominyddol yn ein cymdeithas”, i ddweud, “Rydym yn mynd i wneud newid i gydnabod bod y sefydliadau hyn yn hiliol ac i wneud gwahaniaeth yno”, oherwydd na allwn wneud hynny. Nid oes gennym y pŵer i wneud hynny. Gallwn ddod yma ac ymdrechu'n ormodol trwy ddweud wrthych am ein profiad byw, sy'n drawmatig i'w wneud ac yn tynnu egni oddi wrthym, ond beth ydych chi'n mynd i wneud ag ef wedyn? Eich gwaith chi yw ei wthio ”…*
*(Tyst i Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref)*

# “Mae'r stereoteipio o ddynion ifanc Du fel ‘peryglus, treisgar ac anwadal’ yn ymadrodd hirsefydlog sydd wedi'i wreiddio ym meddyliau llawer yn ein cymdeithas.”

Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Farwolaethau a Digwyddiadau Difrifol yn Nalfa'r Heddlu - Y Gwir Anrh. Y Fonesig Elish Angiolini DBE QC, 2017.



# Anghydraddoldebau hiliol heb eu hesbonio mewn defnydd o bwerau

Mae anghydraddoldebau hiliol yn nefnydd pwerau gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn destun pryder a dadansoddiad parhaus. Mae astudiaethau, adroddiadau a ffynonellau data swyddogol niferus (Swyddfa Gartref, 2024) wedi dangos yn gyson bod pwerau ac arferion penodol yr heddlu wedi effeithio’n anghymesur ar bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig o gymharu â'u cymheiriaid gwyn. Mae stopio a chwilio a defnydd yr heddlu o rym yn feysydd nodedig o bryder sy'n tanio diffyg ymddiriedaeth mewn rhai cymunedau fod yr heddlu yn defnyddio eu pwerau yn deg ac yn effeithiol. Maent yn arwydd o'r achosion a atgyfeirir atom ynghylch gwahaniaethu hiliol. Fel y cyfryw, maen nhw wedi ffurfio sylfaen o'n canfyddiadau lle mae pobl o gefndir ethnig Du yn cynrychioli cyfran sylweddol o'n hachosion o gymharu â grwpiau ethnig eraill.

Mae materion allweddol rydym wedi'u hadnabod yn ymwneud â:

- Rhai swyddogion heddlu yn arfer eu pwerau stopio a chwilio yn seiliedig ar ragdybiaethau ystrydebol hiliol, yn hytrach nag ar ‘amheuaeth resymol’.
- Achosion o ddefnydd grym gormodol gan yr heddlu a thueddiadau posibl pan ddefnyddir grym.
- Achosion pan allai ymateb yr heddlu i blant Du (at ddibenion yr adroddiad hwn, a ddiffinnir fel y rhai o dan 18 oed) gael ei ystyried yn arwydd o ragfarn oedolyneiddio. Mae tuedd oedolyneiddio yn cyfeirio at y duedd i ganfod plant, yn enwedig plant Du, yn hŷn ac yn aeddfetach nag y maen nhw, gan arwain at driniaeth annheg, disgyblaeth lymach a chymorth ac amddiffyniad llai.
- Gelyniaeth anesboniadwy a diffyg cwrteisi a pharch yn ystod cyfarfodydd â'r heddlu.

Rydym wedi nodi’r defnydd anghymesur o rai o’r pwerau plismona mwyaf ymwthiol ar gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac anallu heddluoedd i ddarparu esboniadau am y anghydraddoldeb hwn. Rydym wedi sylwi ei bod yn bosibl nad yw'r heddlu yn deall yn llawn yr effaith mae'r defnydd anghymesur o’r pwerau hyn ar unigolion a chymunedau, ac nid ydynt bob amser yn cydnabod yn llawn sut y gall anghydraddoldebau strwythurol ddylanwadu ar yr ymateb plismona (gweler Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi adroddiad 'Defnydd anghymesur o bwerau'r heddlu').

Mae defnydd pwerau'r heddlu yn bennaf yn ddewisol, gan olygu bod gan yr heddlu rywfaint o ddewis wrth benderfynu pryd a sut i ymarfer eu hawdurdod. Er bod swyddogion yn cael eu harwain gan gyfreithiau, rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau, yn aml mae ganddynt ddisgresiwn i ddehongli a chymhwyso’r rheolau hyn mewn sefyllfaoedd penodol gan ddefnyddio’r model gwneud penderfyniadau cenedlaethol (NDM). Mae'r NDM yn fframwaith i lywio prosesau penderfynu i swyddogion yr heddlu ac yn darparu ymagwedd strwythuredig cyn cymryd camau weithredu. Fe'i cynlluniwyd i hyrwyddo penderfyniadau teg ac effeithiol, ond nid yw'n gwarchod rhag penderfyniadau gwahaniaethol. Mae'n dibynnu ar swyddogion heddlu yn defnyddio'r model mewn modd sy'n

gyson â gofynion cyfreithiol, polisïau a safonau proffesiynol.

Mae'n hanfodol fod plismona yn gwella ei ddealltwriaeth o hiliaeth, gwahaniaethu a thuedd ar sail hil er mwyn cydnabod a mynd i'r afael ag ef yn effeithiol lle mae'n bodoli. Rydym felly'n croesawu ymrwymiad yr heddlu i ddod yn wrthhiliol (hynny yw, mynd ati'n rhagweithiol i wrthwynebu hiliaeth) a darparu gwasanaeth gwrthwahaniaethol trwy Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu.

## Pwerau a stereroteipiau stopio a chwilio

**Mae'n rhaid defnyddio pwerau stopio a chwilio yn deg (…) a heb wahaniaethu anghyfreithlon.**

**Mae gwneud penderfyniadau teg o ran stopio a chwilio yn bwysig oherwydd ei fod yn effeithio ar farn pobl am yr heddlu – nid yn unig yr unigolyn sy'n cael ei chwilio, ond hefyd grwpiau a chymunedau ehangach y mae'r unigolyn hwnnw'n aelod ohonynt.**

Ymarfer Proffesiynol Wedi'i Gymeradwyo Gan y Coleg Plismona

Mae ein hadroddiad stopio a chwilio cenedlaethol, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2022, yn cydnabod gwerth yr heddlu yn cael pŵer sy'n eu galluogi i gadw person nad yw wedi cael ei arestio, ac i'w chwilio neu ei gerbyd am eitem anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae ein tystiolaeth o adolygiad o 37 o achosion, ochr yn ochr â data ac ymchwil presennol, yn awgrymu bod rhai swyddogion heddlu yn arfer eu pwerau yn seiliedig ar ragdybiaethau ystrydebol hiliol ac nid ar sail 'amheuaeth resymol'. Mae hyn yn anghyfreithlon ac yn wahaniaethol.

Mae 'amheuaeth resymol' yn brawf gwrthrychol sy'n caniatáu i swyddogion heddlu chwilio unigolion pan fydd ganddynt gred resymol y byddant yn dod o hyd i'r eitem y chwiliwyd amdani, a'i bod yn gred resymol o ystyried yr wybodaeth sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, mewn rhai o'n hymchwiliadau, rydym wedi canfod swyddogion yn stopio ac yn chwilio unigolion heb seiliau rhesymol.

Mae arogl canabis fel yr unig reswm dros stopio a chwilio neu'r prif reswm dros amheuaeth, ynghyd â deallusrwydd gwan neu amwys, wedi bod yn rhan o rai o'n hymchwiliadau. Mae'r enghreifftiau hyn yn atgyfnerthu canfyddiad cyffredin bod arogl canabis yn cael ei ddefnyddio fel esgus i stopio a chwilio, yn enwedig pan na fydd canabis yn cael ei ganfod ar yr unigolyn.

Mae ymchwil yn awgrymu mai'r rhai sy'n fwyaf tebygol o gael eu plismona am feddiant o ganabis yw gwrywod trefol ifanc o leiafrifoedd ethnig sy'n perthyn i grwpiau 'a amheuir' gyda thystiolaeth o arferion dewisol ym mhenderfyniadau swyddogion ynghylch pwy i fynd ato, i'w chwilio a'i arestio a all ddangos gwahaniaethu. Nid yw'r diddordeb gwreiddiol mewn unigolion neu gerbydau yn gysylltiedig â meddiant canabis ond yn seiliedig ar gredoau ystrydebol hiliol am bobl o leiafrifoedd ethnig. Er enghraifft, mae pobl Ddu



mewn ceir neis yn debygol o fod wedi'i gaffael trwy weithgaredd troseddol neu mae person Du mewn ardal gyfoethog yn debygol o fod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd amheus. Bydd swyddogion wedyn yn defnyddio arogl canabis mewn ymgais i gyfiawnhau stopio a chwilio. (Grace, Lloyd & Page, 2022).

Canfu adolygiad HMICFRS o stopio a chwilio bod chwiliadau cyffuriau yn cyfrannu'n sylweddol at wahaniaethau hiliol yn y defnydd o stopio a chwilio. Roedd gan chwiliadau cyffuriau ar bobl Ddu, ac yn enwedig chwiliadau cyffuriau meddiant yn unig, gyfradd uwch o seiliau gwan a gofnodwyd na chwiliadau cyfatebol ar bobl Wyn (HMICFRS, 2017).

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, mae data'r Swyddfa Gartref yn dangos bod 530,093 o achosion o stopio a chwilio wedi'u cynnal o dan adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) gan heddluoedd Cymru a Lloegr (gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain). Mae'r heddlu'n cynnal stop a chwilio adran 1 PACE am wahanol resymau, gan gynnwys bod ag amheuaeth resymol y gallai unigolyn fod â chyffuriau neu arf yn ei feddiant. O'r 530,093 o chwiliadau a gynhaliwyd, roedd 59.6% ar amheuaeth o feddu ar gyffuriau ac roedd 15.9% ar gyfer arfau bygythiol. Arweiniodd 14.3% at arestiad.

Cafodd pobl a hunanddiffiniodd eu hethnigrwydd fel Du, Asiaidd neu 'gymysg neu arall' (neu yr oedd y swyddog yn gweld eu bod yn perthyn i un o'r ethnigrwyddau hynny, os na nodir) eu stopio a'u chwilio ar gyfradd uwch na'u cymheiriaid Gwyn, â chyfraddau o 5x, 1.5x ac 1.7x yn y drefn honno (Swyddfa Gartref 2024). Pobl dduon sy'n parhau i brofi'r gyfradd uchaf o chwiliadau, er ein bod wedi gweld gostyngiad yn y gyfradd anghydraddoldeb o 5.5 ym Mawrth 2023.

Mae dadansoddiad newydd yn ôl grŵp ethnig ar a oedd canlyniad yn gysylltiedig â'r stopio a chwilio yn dangos bod gan unigolion a hunanddiffiniodd eu hethnigrwydd naill ai fel Du neu 'gymysg neu arall' (neu y mae'r swyddog yn gweld eu bod yn perthyn i un o'r grwpiau ethnig hynny, os na ddatganwyd) gyfradd arestio o 15.9%. Roedd gan bobl wyn gyfradd arestio o 13.9%, a phobl Asiaidd oedd â'r gyfradd arestio isaf o 12.8%. Ni chafodd 70.9% o bobl Ddu 'weithredu ychwanegol'. Ar gyfer pobl Asiaidd roedd yn 69.9%, wedi'i ddilyn gan 69.6% ar gyfer pobl Gwyn a 67.4% ar gyfer pobl a nodwyd fel 'cymysg neu arall'.

**Stopio a chwilio am feddiant o gyffuriau fesul 1,000 o'r boblogaeth yn ôl ethnigrwydd hunanddiffiniedig neu ethnigrwydd wedi'i ddiffinio gan swyddog*, Cymru a Lloegr, 24/2023**




*Mae data'r swyddfa gartref yn nodi 'heb ddatgan' ethnigrwydd hunan-ddiffiniedig ar gyfer tua un o bob pum chwiliad o bobl. Lle na nodir ethnigrwydd hunanddiffiniedig y sawl a chwiliwyd, defnyddir ethnigrwydd a arsylwyd gan swyddogion yn lle hynny. Mae hyn yn lleihau cyfran yr achosion stopio ethnigrwydd anhysbys o 19.3% i 1.6%.

**Stopio a chwilio am feddiant o gyffuriau fesul 1,000 o'r boblogaeth yn ôl ethnigrwydd hunanddiffiniedig neu ethnigrwydd wedi'i ddiffinio gan swyddog*, Cymru a Lloegr, 2020/21 i 2023/24**






Mae gwahaniaethau hiliol parhaus yn y defnydd o arferion stopio a chwilio yn tanseilio egwyddorion tegwch a chydraddoldeb sy'n sylfaenol i blismona effeithiol ac ymddiriedaeth y cyhoedd. Gall y diffyg esboniad waethygu teimladau o ddiffyg ymddiriedaeth ac anghyfiawnder ymhlith cymunedau yr effeithir arnynt.

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Crest Advisory er bod pobl Ddu yn gyffredinol yn cefnogi'r egwyddor o stopio a chwilio, roedd pryderon difrifol am y ffordd roedd rhai chwiliadau yn cael eu cyflawni'n ymarferol, yn ogystal â'r gwasanaeth a'r driniaeth gyffredinol mae nhw'n eu derbyn gan yr heddlu. Roeddf oedolion Du Caribïaidd ac ethnigrwydd cymysg yn fwy tebygol o ddweud iddynt ganfod y profiad o gael eu stopio a'u chwilio yn drawmatig a bychanol.

Mae'r canfyddiad o hiliaeth ac anghydraddoldeb, yn y defnydd o stopio a chwilio, ac yn ymgysylltiad cyffredinol yr heddlu â chymunedau Du wedi effeithio'n negyddol ar a yw plant Du yn teimlo'n ddiogel o amgylch yr heddlu, neu a fyddent yn mynd at yr heddlu pe baent mewn perygl ac roedd angen cymorth. Dywedodd 66% o bobl ifanc Ddu y bydden nhw'n ffonio'r heddlu petaen nhw mewn perygl o gymharu ag 87% o blant Gwyn a phobl ifanc yn eu harddegau. (Crest Advisory, 2022).



Mae ein hadroddiad dysgu cenedlaethol ar y pwnc yn galw am stopio a chwilio sy’n deg ac yn barchus. Gwnaethom 18 argymhelliad i'r Coleg Plismona, y Swyddfa Gartref a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i wella'r defnydd o stopio a chwilio a diogelu cymunedau rhag stopio a chwilio wedi'u dylanwadu gan stereoteipio a thuedd hiliol.

Un o’r argymhellion oedd cofnodi data ar y defnydd o bwerau Adran 163 o *Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.* Mae pwerau adran 163 yn rhoi'r awdurdod i swyddogion stopio unrhyw gerbyd. Rydym yn ymwybodol o bryderon ynghylch anghymesuredd canfyddedig yn ei ddefnydd a all arwain at ddefnyddio pwerau stopio a chwilio o dan adran 1 o PACE os oes sail resymol i amau y bydd swyddogion yn dod o hyd i’r eitem y chwiliwyd amdani. Nid oes gofyniad gorfodol ar hyn o bryd i gasglu data ar y defnydd o'r pŵer hwn.

Yn ein hadroddiad, amlygasom ein bod wedi gweld dynion Du a dynion lleiafrifoedd ethnig eraill yn cael eu stopio yn eu cerbydau oherwydd:

- Eu bod yn bresennol mewn man problemus o ran cyffuriau.
- Eu bod yn gyrru math o gar sy'n gysylltiedig â gwerthwyr cyffuriau;
- Eu bod yn Ddu mewn ardal lle dangosodd gwybodaeth 7 mis oed fod dynion Du yn cymryd rhan mewn gwerthu cyffuriau.
- Eu bod yn gyrru dwywaith heibio lleoliad sydd yn cael ei fonitro mewn cysylltiad â throseddau cyffuriau, mewn car sydd wedi'i gofrestru mewn ardal wahanol;
- Eu bod yn gyrru car sydd heb gael ei gofrestru yn yr ardal;
- Eu bod yn edrych ar swyddogion mewn ‘ffordd arbennig’ a bod y tu allan yn ystod cyfnod o gyfyngiadau Covid-19.

Ni chaniateir i swyddogion stopio cerbyd ar sail nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys hil, oedran neu wisg grefyddol y gyrrwr na’r teithwyr.



## Achos enghreifftiol

Stopiodd tri heddwas a chwilio swyddog heddlu Asiaidd nad oedd ar ddyletswydd a'u ffrind mewn car drud. Dywedwyd wrth y swyddog nad oedd ar ddyletswydd iddo gael ei stopio a'i chwilio oherwydd ei ffordd o yrru, cudd-wybodaeth yr heddlu yn gysylltiedig â'i gar, ac arogl canabis. Nid oedd y swyddogion yn ymwybodol fod y gyrrwr yn heddwas nad oedd ar ddyletswydd ac nid tan iddo gael ei chwilio y daeth un swyddog o hyd i'w gerdyn gwarant heddlu a chwestiynu pam nad oedd wedi dweud wrthynt yn syth.

Fe wnaeth swyddog chwilio'r swyddog nad oedd ar ddyletswydd a rhoi gefynnau arno, tra bu swyddogion eraill yn chwilio'r car a'i ffrind, ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw beth. Roedd y swyddog nad oedd ar ddyletswydd yn cwestiynu'r gudd-wybodaeth oedd yn gysylltiedig â'i gar ac yn gwadu arogl canabis. Wedyn, sefydlwyd yn y fan a'r lle bod y gudd-wybodaeth yn anghywir.

Adroddodd y swyddog nad oedd ar ddyletswydd y digwyddiad i’r heddlu, a gwnaed atgyfeiriad ymddygiad i SAYH.

Yn dilyn ein hymchwiliad, daethom i'r casgliad y dylai un swyddog wynebu cyfarfod camymddwyn lle profwyd achos o dorri gonestrwydd ac uniondeb o ran arogl canabis. Derbyniodd y swyddog rybudd ysgrifenedig a fydd yn aros ar ei gofnod am 18 mis.

## MAE SAYH YN CROESAWU

**Rydym yn falch o glywed bod heddluoedd wedi dechrau cofnodi ethnigrwydd y bobl sy'n destun ataliadau cerbydau fel rhan o Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu. Mae cofnodi a chyhoeddi'r data hyn ar gyfer pob llu yn hanfodol ar gyfer tryloywder, atebolrwydd, a gwelliant.**

**Mae hefyd yn galonogol fod prif swyddogion yn rhannu strategaethau a chynlluniau lleol i wella'r defnydd o stopio a chwilio. Roedd y rhannu o gynlluniau lleol mewn ymateb i’n hadroddiad cenedlaethol stopio a chwilio, lle gofynnwyd i brif swyddogion werthuso arferion stopio a chwilio lleol yn unol â’n hargymhellion cenedlaethol. Ymatebodd pob un o’r 43 heddlu yng Nghymru a Lloegr i’n harolwg. Mae enghreifftiau o arfer cadarnhaol ac arloesol yn ymwneud â gwelliannau i bolisïau, canllawiau, hyfforddiant a chraffu. Maent yn rhoi cyfle i heddluoedd rannu arferion lleol a dysgu oddi wrth eraill. Mae'r arferion heddlu lleol a restrir isod yn amlygu rhai o'r cynlluniau y gellir eu canfod hefyd mewn heddluoedd eraill.**

## MAE SAYH YN CROESAWU

**Enghreifftiau o gynlluniau heddlu i wella defnydd o stopio a chwilio**

**Mae Heddlu Swydd Hertford wedi cyflwyno 'archwiliadau manwl' anghymesuredd** i nodi lleoliadau lle mae anghymesuredd ymddangosiadol a deall y defnydd o'r pwerau'n well, ac i asesu a oes unrhyw ymddygiadau a ddangosir gan y swyddogion chwilio a fyddai'n achosi pryder.

**Mae Heddlu Essex wedi addasu coflyfr GOWISELY i gynnwys 'R' ar gyfer Rhoi Sicrwydd a Diogelu hefyd,** â'r diben o ymgyfarwyddo swyddogion â'r angen i roi sicrwydd i bawb sy'n cael eu stopio a'u chwilio, yn benodol pan ddaeth y chwiliad i ben â chanlyniad negyddol. Mae'r sicrwydd hwn yn cynnwys esboniad llawn o'r rhesymau dros y chwiliad ac ymddiheuriad, lle bo'n briodol, am unrhyw anghyfleustra neu embaras a achosir. (Mae GOWISELY yn acronym am yr wybodaeth y dylai swyddogion heddlu eu darparu cyn cychwyn stopio a chwilio yn unol ag Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona).

**Mae adroddiadau 'defnydd o rym' Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn cael eu craffu mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan Bwyllgor Safonau ac Uniondeb yr Heddlu (PSIC) eu Bwrdd Awdurdod Heddlu.** Mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu ffrydio'n fyw ar YouTube Mae pob defnydd o rym yn cael ei gofnodi ar adroddiad digidol defnydd o rym ac yn cael ei graffu am dueddiadau sy'n cael eu hatgyfeirio i'w Grŵp Cynghori a Chraffu Annibynnol ac i Bwyllgor Safonau ac Uniondeb yr Heddlu

**Yn Heddlu Gwent, mae pob achos o stopio a chwilio sy'n ymwneud â rhywun o gefndir Du neu leiafrif ethnig yn cael ei adolygu gan sarsiant o fewn Adran Gwelliant Parhaus y llu.** Maen nhw'n gwirio ansawdd y seiliau a'r pwerau a ddefnyddir. Rhoddir adborth ar themâu i'r heddlu a chaiff adborth yr unigolyn o'r swyddogion ei gyflwyno'n bersonol a thrwy'r grŵp Gwella Ansawdd Pwerau Gorfodol.

**Mae gan Heddlu Gogledd Cymru fecanwaith mewnol (Galwad Diogel) ar gyfer adrodd yn gyfrinachol am ymddygiad amhriodol.**

**Mae polisi ôl-ofal Heddlu Gorllewin Mersia yn sicrhau bod pob plentyn neu berson ifanc yn cael ymweliad gan swyddog ymyrraeth ieuenctid o fewn deng niwrnod o gael ei stopio a'i chwilio** i esbonio pam y digwyddodd y chwiliad ac i sefydlu a ellir cynnig unrhyw gymorth ychwanegol.

**Yng Ngorllewin Swydd Efrog, mae swyddogion heddlu yn defnyddio cod QR yn ystod stopio a chwiliadau** i ddarparu'r cyfle i'r person a sropiwyd i fwydo yn ôl a/neu gwyno ar brofiad unigol.



Mewn cydweithrediad â Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a chyda chefnogaeth y Prif Gwnstabl Amanda Pearson, cyn arweinydd yr NPCC ar gyfer stopio a chwilio a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Andy Mariner, arweinydd presennol yr NPCC ar gyfer stopio a chwilio, rydym wedi rhannu'r cynlluniau gan bob heddlu a'u Comisiynydd Heddlu a Throseddu priodol i hwyluso gwelliannau parhaus. Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan luoedd i'w canfod ar ein gwefan.

Mae'n bwysig fod yr heddlu'n gallu dangos effaith eu gweithredoedd o ran gwella'r defnydd a chraffu ar stopio a chwilio, a bod cynlluniau a roddir ar waith yn arwain at newid sy'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w cymunedau.

Gall stopio a chwilio fod yn un o'r rhyngweithiadau mwyaf gwrthdrawiadol y gall unigolyn ei brofi gyda phlismona ac yn aml iawn dyma'r tro cyntaf i bobl ifanc ddod i gysylltiad â phlismona.
Yn ein hadroddiad stopio a chwilio, fe wnaethom dynnu sylw at yr effaith barhaus a adroddwyd gan achwynwyr. Gall yr effeithiau sylweddol ar blentyn ifanc a allai wedyn brofi cyfnodau o stopio a chwilio dro ar ôl tro drwy gydol ei fywyd gael effeithiau hirdymor.

Mae ymchwil gan Crest Advisory yn dangos bod y profiad o stopio a chwilio yn fwy trawmatig i blant nag ydyw i oedolion. Dywedodd 25% o blant Du a phobl ifanc yn eu harddegau eu bod yn ymddiried yn yr heddlu i ddefnyddio stopio a chwilio yn deg, o gymharu â 51% o'r rhai sy'n Wyn. Dywedodd 64% o blant Gwyn a phobl ifanc yn eu harddegau fod gwybod bod yr heddlu'n stopio a chwilio pobl yn eu hardal wedi gwneud iddyn nhw deimlo'n fwy diogel – ond dim ond 36% o bobl ifanc Ddu a ddywedodd hyn. (Crest Advisory, 2022).

Mae pobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc o gefndir ethnig Du, yn cynrychioli cyfran fawr o'n hachosion stopio a chwilio. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2024, mae data'r Swyddfa Gartref yn dangos (lle rhoddwyd oedran y person) bod un allan o bump o'r holl chwiliadau ar bobl 10-17 oed, gyda 9.9% o'r chwiliadau yn arwain at arestiad. Roedd 101 o chwiliadau yn ymwneud â phlant 9 oed neu iau (cynnydd o 65 chwiliad yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023). Roedd plant rhwng 10 a 17 oed yn cyfrif am 60.9% o chwiliadau difrod troseddol a 13.1% o chwiliadau cyffuriau.

Roedd gan fechgyn Du 10-17 oed (hunanddiffiniedig fel Du neu swyddog-ddiffiniedig) oedd â'r gyfradd stopio a chwilio uchaf, sef 106.3 fesul 1,000 o bobl, o gymharu â'u cymheiriaid Gwyn a grwpiau ethnig eraill o'r un oedran. Ar gyfer bechgyn Gwyn 10-17 oed, y gyfradd oedd 27.1, tra ar gyfer unigolion Asiaidd a'r rhai o grwpiau ethnig cymysg neu grwpiau ethnig eraill y cyfraddau oedd 21.0 a 27.3 yn y drefn honno (Swyddfa Gartref 2024).

Mae risg sylweddol i hyder y cyhoedd oni bai fod yr heddlu'n gallu rhesymoli'r defnydd o stopio a chwilio i'r cyhoedd yn iawn a dangos craffu effeithiol o'i ddefnydd - yn enwedig o fewn y cymunedau yr effeithir arnynt yn fwyaf anghymesur. Mae ein safbwynt ar stopio a chwilio wedi'i nodi yn ein datganiad isod.

# Datganiad sefyllfa SAYH ar stopio a chwilio

*Rydym yn cydnabod, pan gaiff ei ddefnyddio'n gywir, bod stopio a chwilio yn bŵer plismona pwysig. Mae'n caniatáu i swyddogion gadw person nad yw'n cael ei arestio, a'i chwilio neu ei gerbyd am eitem anghyfreithlon.*

*Ond mae'n un o'r pwerau plismona mwyaf cynhennus ac ymwthiol ac mae ei ddefnydd anghymesur yn erbyn pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig dynion Du ifanc, wedi niweidio cysylltiadau â'r cymunedau hynny ers llawer o flynyddoedd.*

*O ganlyniad, mae unrhyw fethiant i resymoli ei ddefnydd yn briodol, neu ddangos craffu effeithiol, yn peri risg sylweddol o niweidio ffydd a hyder y cyhoedd, yn enwedig o fewn y cymunedau yr effeithir arnynt yn fwyaf anghymesur.*

*Rydym yn clywed dro ar ôl tro gan achwynwyr ac eraill am brofiadau negyddol o gael eu stopio a'u chwilio, - yn bennaf am y ddiffyg cyfreithlondeb canfyddedig - a'r anfodlonrwydd a'r dicter y gellir ei achosi. Dengys ymchwil y gall hyn greu ymyleiddio, allgáu, trawma, ac yn y pen draw colli ymddiriedaeth yng nghyfreithlondeb plismona. Mewn rhai sefyllfaoedd, gall hyd yn oed rwystro llif yr wybodaeth yn ymwneud â throseddau o dystion.*

*Yn ein hadroddiad dysgu stopio a chwilio cenedlaethol, defnyddiwyd tystiolaeth o'n gwaith achosion ac ymgysylltu i adeiladu ar waith ymchwil i nodi themâu, patrymau a materion cyffredin. Roedd y dystiolaeth hon yn sail i 18 o argymhellion sy'n amlygu cyfleoedd i gynyddu hyder y cyhoedd drwy wella'r defnydd a chraffu o stopio a chwilio ar lefel leol a chenedlaethol.*

*Credwn fod yn rhaid cymryd camau i wella arferion plismona fel nad yw stopio a chwilio yn effeithio'n anghymesur ar bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.*

***Dileu stereoteipio, rhagfarn ac anghymesuredd***

*Mae'n rhaid diogelu pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig rhag cael eu stopio a'u chwilio oherwydd penderfyniadau sy'n seiliedig ar ragdybiaethau, stereoteipiau a thuedd hiliol.*

***I sicrhau cyfreithlondeb***

*Dylid adolygu ac ymgorffori agweddau ar God A PACE ac Arfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP), sy'n pennu sut y defnyddir stopio a chwilio, er mwyn cynyddu cyfreithlondeb canfyddedig stopio a chwilio fel pŵer plismona.*

*Dylai'r ddibyniaeth ar arogl canabis yn unig fel sail ar gyfer stopio a chwilio ddod i ben, fel y nodir yn APP oherwydd ei effaith anghymesur ar grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig*

*Mae angen cynorthwyo swyddogion heddlu i wella eu sgiliau cyfathrebu a dad-ddwysáu fel bod stopio a chwilio, o'r pwynt cyswllt cyntaf hyd at ddiwedd y cyfarfod, yn cael eu cynnal yn broffesiynol a chyda pharch a chwrteisi.*

***I atal y defnydd o rym pan nad yw'n briodol nac yn angenrheidiol***

*Dim ond pan fo'n gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur i wneud hynny y dylid defnyddio gefynnau a defnyddiau eraill o rym.*

***Ysgogi tryloywder a chraffu***

*Mae angen adolygiad o sut mae pwerau a ddefnyddir ochr yn ochr â stopio a chwilio yn cael eu cofnodi'n genedlaethol i ddarparu tryloywder helaethach ac adnabod unrhyw faterion systemig y mae angen mynd i'r adael â nhw.*

*Dylid defnyddio fideo a wisgir ar y corff i dangos sylwebaeth y swyddog cyn i'r person gael ei gadw ar gyfer chwiliad, cynnal y chwiliad ei hun, a chasgliad dilynol y cyfarfyddiad.*

*Mae angen craffu mwy effeithiol ar ddefnydd stopio a chwilio ar lefel oruchwyliol, gymunedol, heddlu a chenedlaethol.*

***Datblygu a defnyddio mewnwelediad i'r defnydd hanesyddol o stopio a chwilio i dorri'r cylch o drawma a wynebir gan y rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur.***

*Mae angen deall yn well y difrod trawmatig a achosir gan stopio a chwilio, er mwyn gallu cymryd camau ystyrlon i leihau trawma o'r fath yn y dyfodol.*

*Dylai penderfyniadau strategol am bolisi ac ymarfer stopio a chwilio ystyried y potensial ar gyfer achosi trawma i unigolion yn ogystal â chymunedau.*

*Dylid cymryd ymagwedd sy'n ystyriol o drawma at stopio a chwilio gan swyddogion pob gradd.*

*Mae rhaid i blismona sicrhau bod y defnydd o stopio a chwilio yn cynnwys ddealltwriaeth o'r materion hanesyddol y mae cymunedau penodol wedi'u profi â defnydd anghymesur o'r pŵer hwn.*

*Ein nod yw i gefnogi newid a gwelliant mewn arferion plismona. Byddwn yn parhau i weithio gyda phlismona, ac eraill, i ddeall yn well y pryderon am y defnydd o stopio a chwilio. Byddwn yn defnyddio ein tystiolaeth i ddarparu argymhellion, gan ysgogi newid lle bo angen er mwyn helpu i wella ffydd a hyder y cyhoedd.*

## Archwilio defnydd yr heddlu o rym

Mae'r defnydd o rym yn rhan bwysig o waith yr heddlu i gynnal diogelwch y cyhoedd a/neu amddiffyn swyddogion heddlu ac eraill. Mae'n agwedd arbennig ar blismona sydd wedi'i gwreiddio yn y gyfraith ac mae'n rhaid ei harfer yn rhesymol, yn gymesur, a dim ond pan fo angen er mwyn cyflawni diben cyfreithlon. Mae tactegau 'defnyddio grym' yn amrywio o fesurau cadw megis gefynnau a chwistrelliadau i ddefnyddio Taser ac arfau tanio. Fodd bynnag, mae ei ddefnydd yn codi ystyriaethau cymhleth gan ei fod yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch pryd a sut i gymhwyso grym a'r effaith bosibl ar hawliau a llesiant y rhai yr effeithir arnynt.

Rydym wedi nodi patrwm sy'n codi dro ar ôl tro yn ein hachosion sy'n ymwneud â gorgynrychiolaeth o bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu hamlygu i'r defnydd o rym. Cefnogir y patrwm hwn gan ddata'r Swyddfa Gartref, sy'n dangos yn gyson y defnydd anghymesur o'r pŵer hwn flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan arwain weithiau at ganlyniadau angheuol.

Datgelodd ymchwil a amlygwyd gan HMICFRS y tebygolrwydd y byddai swyddogion yn tynnu offer neu arfau ac yn defnyddio grym heb arfau (ond heb ddefnyddio offer nac arfau) yn uwch pan nodwyd bod y person yn Ddu na phan gafodd ei nodi yn Wyn. Mae HMICFRS hefyd yn amlygu sut mae grym yn cael ei gymhwyso'n anghymesur â'r defnydd o Tasers a gefynnau sy'n cydymffurfio ac yn nodi bod y rhesymau am hyn yn aneglur. (HMICFRS, 2017).

Gall rhesymau aneglur dros anghydraddoldebau hiliol awgrymu y gallai tueddiadau systemig fod yn ffactor sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau strwythurol ehangach. Mae hwn yn ysgogwr posibl a all ddylanwadu ar benderfyniadau a chanlyniadau mewn ffyrdd sy'n rhoi grwpiau penodol dan anfantais.

Mae grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid yn aml yn codi pryderon ynghylch gwahaniaethu ar sail hil ac anghydraddoldebau hiliol mewn perthynas â defnyddio grym. Mae pryder arbennig ynghylch stereoteipio dynion a bechgyn Du ifanc ac effaith rhagfarn a all ddylanwadu ar gredoau, gweithredoedd a phenderfyniadau swyddogion heddlu.

Mae ymchwil wedi dangos y gall canfyddiadau ystrydebol o bobl Ddu fel rhai peryglus, treisgar, anwadal, a bod â chryfder "goruwchddynol" fod yn cyfrannu at y defnydd anghymesur o rym ac ataliaeth yn erbyn unigolion o'r fath. Gall y gorgyffwrdd rhwng hil ac iechyd meddwl hefyd gynyddu'r risg o lefelau uwch o'r ddefnydd o rym ac ataliaeth (Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Farwolaethau a Digwyddiadau Difrifol yn Nalfa'r Heddlu - Gwir Anrh. Y Fonesig Elish Angiolini DBE QC, 2017. Mae'n faes pryder sy'n gysylltiedig â thuedd lle mae ymchwil cynyddol sy'n archwilio ffurfio amheuon sy'n arwain at ryngweithiadau heddlu (gweler The formation of suspicions: police stop and search practices in England and Wales a The role of prejudicial stereotypes in the formation of suspicion: An examination of operational procedures in stop and search practices). Mae hyn yn cynnwys astudio ffactorau a allai ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch defnyddio grym, megis ethnigrwydd, rhyw, iechyd meddwl a ffactorau sefydliadol eraill (Dymond, Boyd, Quinton, 2023).



> ***"Mae stereoteipio dynion ifanc Du fel 'peryglus, treisgar ac anwadal' yn ymadrodd hirdymor sydd wedi'i wreiddio ym meddyliau llawer yn ein cymdeithas."***
> *Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Farwolaethau a Digwyddiadau Difrifol yn Nalfa'r Heddlu - Y Gwir Anrh. Y Fonesig Elish Angiolini DBE QC, 2017.*

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023, mae data'r Swyddfa Gartref yn dangos bod 659,372 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi pan ddefnyddiodd swyddog heddlu rym. Tactegau atal oedd y math mwyaf cyffredin o rym a ddefnyddiwyd (78%) ac roedd y rhan fwyaf o'r tactegau hyn yn ymwneud â gefynnau (77%). Gwelodd pobl o grŵp ethnig Du y defnydd o rym ar gyfradd 3.4 gwaith yn uwch na'r rhai o grŵp ethnig Gwyn. Gwelodd pobl o grŵp ethnig Asiaidd neu gymysg ddefnydd o rym ar gyfradd is (0.8). Gwelodd grwpiau ethnig eraill y defnydd o rym ar gyfradd ychydig yn uwch na'u cymheiriaid Gwyn yn 1.2 (Swyddfa Gartref, 2023).

Yn ein hadroddiad stopio a chwilio cenedlaethol, fe wnaethom amlygu ein bod, yn dilyn adolygiad o'n hachosion, yn gweld swyddogion heddlu yn troi at efynnau neu fath o rym arall i sicrhau cydymffurfiaeth fel mater o drefn neu'n gyflym wrth ymgysylltu â phobl o leiafrifoedd Du, Asiaidd neu gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig eraill. Gwyddom o'n canfyddiadau, pan fydd stopio a chwilio yn cael eu hystyried yn anghyfiawn neu wedi'u hysgogi gan ragfarn, mae ganddynt y potensial i gynyddu tensiynau. Gall y tensiynau hyn gynyddu'r siawns o wrthdaro ac ymwrthod, gan gynyddu'r risg o ddefnyddio grym a/neu arestio yn y pen draw.

**Cyfradd defnyddio grym yn ôl grŵp ethnig (Ebrill 2022 - Mawrth 2023)**



## Enghreifftiau o achosion

Cafodd plentyn Du 12 oed, oedd â chast plastr ar un o'u dwylo, ei roi mewn gefynnau o fewn 20 eiliad i'r swyddog ddod allan o'i gerbyd heddlu. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod y plentyn yn ufudd ac yn gwrtais o'r cychwyn cyntaf a chyn cael y cyfle i egluro ei fod yn gwneud tasgau ar ran ei fam.

Roedd stopio a chwilio dyn Du, a ddatblygodd i ddefnyddio grym, gan gynnwys gefynnau a chwistrell analluogi, o fewn munud i ddechrau’r cyfarfod, yn golygu nad oedd digon o amser i swyddogion ymdrin â holl elfennau GOWISELY. Roedd hyn yn golygu nad oedd digon o amser i swyddogion gwmpasu holl elfennau GOWISELY.

### Esbonio GO WISELY

- **G** **Seiliau** - Esboniad clir o seiliau'r swyddog dros amheuaeth, e.e. gwybodaeth, cudd-wybodaeth, neu ymddygiad penodol person
- **O** **Gwrthrych** - Esboniad clir o'r gwrthrych a phwrpas y chwilio o ran yr erthygl y chwilir amdani
- **W** **Cerdyn Gwarant** - os nad mewn ffurfwisg, neu os gofynnir
- **I** **Hunaniaeth y Swyddog(ion)** - enw a rhif neu, mewn achosion yn ymwneud â therfysgaeth neu lle mae risg benodol i'r swyddog, rhif gwarant neu goler yn unig
- **S** **Gorsafy** - mae'r swyddog yn gysylltiedig â hi
- **E** **Hawl i gopi o'r cofnod chwilioo** fewn 3 mis
- **L** **Pŵer cyfreithiola** ddefnyddir
- **Y** **Rydych chi'n cael eich cadw at ddibenion chwiliad**



Source: College of Policing

Daeth heddwas at ddyn Du a oedd yn sefyll â beic ar ffordd breswyl yn holi beth oedd yn ei wneud yno. Digwyddodd sgwrs fer ac o fewn 20 eiliad penderfynodd y swyddog heddlu gadw'r dyn am chwiliad o dan y *Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau*.

Roedd y dyn yn synnu at y penderfyniad hwn ac nid oedd yn dymuno cydymffurfio. Yna cafodd ei atal am beidio â chydymffurfio a'i arestio am gythrwfl Cafodd ei noeth-chwilio yn y ddalfa ac ni chanfuwyd unrhyw eitemau. Cafodd ei ryddhau yn ddiweddarach gyda Dim Rhagor o Weithredu.



Fe wnaeth grŵp o dri swyddog nad oedd mewn gwisg heddlu, mewn cerbyd heb ei farcio stopio a chwilio dyn oedd yn eistedd yn ei gar oedd wedi parcio ger ei dŷ sydd yn agos at fan problemus o ran trosedd. Honnodd y swyddog y gallai arogli canabis yn dod o'r car. Ni ddaethpwyd o hyd i ganabis.

Cafodd y dyn, dinesydd Pwylaidd nad oedd Saesneg yn iaith gyntaf iddo, ei dynnu o’r car, ei wthio i’r llawr, ei roi mewn gefynnau a chwistrellu PAVA (chwistrell analluog) yn ei lygaid. Cafodd ei arestio am rwystro’r heddlu, ond fe’i dadarestiwyd yn ddiweddarach. Dywedodd y dyn wrth ein hymchwiliad ei fod yn ofnus am ei fywyd yn ystod yr ymrafael â’r swyddogion gan ei fod yn meddwl ei fod ar fin cael ei ddwyn oddi wrtho ac nad oeddent wedi dweud pwy oeddent. Gwrthsafodd y dyn ymdrechion y swyddogion i'w archwilio a cheisiodd ddianc pan wnaethon nhw ddechrau defnyddio grym. Tarodd un swyddog y dinesydd Pwylaidd sawl gwaith.

Mewn gwrandawiad camymddwyn, canfu'r panel fod swyddogion wedi torri safonau ymddygiad proffesiynol yr heddlu o ran: gonestrwydd ac uniondeb; awdurdod, parch a chwrteisi; dyletswyddau a chyfrifoldebau; defnydd o rym.

Canfu’r panel fod gweithredoedd un o'r swyddogion yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol a diswyddwyd ef yn ddirybudd. Mae wedi cael ei rwystro rhag gweithio mewn plismona yn y dyfodol. Rhoddwyd rhybudd ysgrifenedig i'r ail swyddog oherwydd canfuwyd bod yr achosion o dorri amodau ar lefel camymddwyn. Bydd trydydd swyddog yn mynychu cyfarfod camymddwyn mewnol.

Gwnaethom ystyried yn ofalus os oedd unrhyw gyfleoedd dysgu yn deillio o'r ymchwiliad. Rydym yn gwneud argymhellion dysgu i wella plismona a hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu ac atal digwyddiadau tebyg rhag ddigwydd eto.

Nododd ein hymchwiliad hefyd y gwersi sefydliadol canlynol ar gyfer yr heddlu:

- Dylid atgoffa swyddogion mewn dillad plaen a’u goruchwylwyr o’r canfyddiad i’r cyhoedd pan wisgir dillad nad ydynt yn unffurf neu ddillad anffurfiol nid ar gyfer busnes megis siorts, tracwisgoedd, crysau-t ac esgidiau ymarfer, ar aseiniadau sy’n wynebu’r cyhoedd.

- Dylid atgoffa swyddogion y dylid rhoi sylw arbennig i nodi eu statws heddlu yn gynnar yn yr amgylchiadau hyn, a chyn gweithredu pwerau'r heddlu.

- Dylid atgoffa swyddogion bod yn rhaid gwisgo festiau’r heddlu yn agored neu’n gudd yn dibynnu ar rolau’r swyddogion.

- Dylai hyfforddiant ffurfiol ar gyfer swyddogion cudd yr heddlu gynnwys pwrpas y rôl a sut i ddefnyddio plismona mewn dillad plaen yn effeithiol i gael tystiolaeth a chudd-wybodaeth.





Mae mathau eraill o rym a ddefnyddir gan yr heddlu megis Taser ac arfau tanio yn cynyddu pryderon o fewn cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ynghylch gwahaniaethu a thuedd ar sail hil, oherwydd y gwahaniaethau hiliol cyffredinol sy'n bodoli.

O gymharu â thactegau eraill, roedd pobl o grŵp ethnig Du yn gysylltiedig â mwy o ddigwyddiadau yn ymwneud â defnydd yr heddlu o arfau llai angheuol megis Taser (16%) ac arfau tanio (24%). Roedd pobl o grŵp ethnig Asiaidd neu gymysg yn cymryd rhan mewn llai o ddigwyddiadau yn ymwneud â defnyddio arfau llai angheuol (6%) ac yn gymesur â mwy o ddigwyddiadau yn ymwneud â defnyddio arfau tanio(13%). Mae hyn yn cymharu â phobl o grŵp ethnig Gwyn a oedd yn gysylltiedig â llai o ddigwyddiadau yn ymwneud â defnydd yr heddlu o arfau llai angheuol (71%) ac arfau tanio (54%) (Swyddfa Gartref, 2023).

Yn ein hadolygiad o Taser, codwyd pryderon gennym am y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio Taser, yn enwedig yng nghyd-destun marwolaethau ac anafiadau difrifol, eu defnydd yn erbyn plant ac oedolion agored i niwed a'r defnydd anghymesur o Taser ar dynion Du.

Mae Taser yn darparu amddiffyniad a diogelwch i swyddogion yr heddlu a'r gymuned mewn sefyllfaoedd peryglus a heriol. Fodd bynnag, mae ei ddefnydd anghymesur ar ddynion Du yn codi cwestiynau. Drwy ein hymgysylltu â rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol, mae rhywfaint o wahaniaeth rhwng disgwyliadau'r gymuned ynghylch pryd y dylid defnyddio Taser a'r sefyllfaoedd y gellir defnyddio Taser ynddynt o dan ganllawiau cenedlaethol cyfredol. Mae'r anghydraddoldeb hwn yn amlygu mater mwy, lle mae diffyg cysylltiad rhwng sut mae plismona yn gweld ei weithredoedd a sut mae pobl yn eu profi.



Archwiliodd ymchwil annibynnol a gychwynnwyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) ac a gomisiynwyd gan y Coleg Plismona, achosion posibl gwahaniaethau ethnig a hiliol yn nefnydd yr heddlu o Taser ac amlygu dylanwad hiliaeth. Mae'r astudiaeth yn awgrymu y gallai fod yn *"gyfuniad o faterion cymdeithasol a blaenoriaethau, polisïau ac arferion plismona sefydliadol sy'n effeithio'n systematig ac yn anghymesur ar gymunedau Du a lleiafrifoedd ethnig eraill mewn [ardaloedd] difreintiedig, o gymharu â phoblogaethau ardaloedd mwy cyfoethog o'u cwmpas, sy'n Wyn yn bennaf. ."* Daw i'r casgliad, er bod swyddogion unigol yn gwneud penderfyniadau i ddefnyddio Tasers, nad yw'r penderfyniadau hynny'n cael eu pennu gan farn y swyddog unigol yn unig. Yn hytrach, maent yn cael eu dylanwadu gan brosesau sefydliadol ehangach ac ymatebion i sefyllfaoedd a gategoreiddiwyd fel bygythiad neu risg. (Bradford, Stott et al, 2023).

Rydym yn cydnabod y sefyllfaoedd heriol y mae swyddogion heddlu yn eu canfod eu hunain ynddynt, lle mae angen gwneud penderfyniadau'n gyflym a lle mae'n angenrheidiol ac yn addas defnyddio grym.

Gall asesu lefel gwrthiant rhywun fod yn gymhleth a gall ansicrwydd sefyllfaoedd ei gwneud hi'n anodd pennu'r lefel briodol o rym i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, y swyddogion unigol sy'n bennaf gyfrifol am ddefnyddio grym. Mae'n nodwedd ddiffiniol o blismona sydd wedi'i gwreiddio yn y gyfraith ac mae'n rhaid ei harfer yn rhesymol, yn gymesur, a dim ond pan fo angen er mwyn cyflawni diben cyfreithlon.

Bob blwyddyn, mae swyddogion unigol yn ymgymryd â hyfforddiant diogelwch cyhoeddus a phersonol (PPST) i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i reoli sefyllfaoedd sy'n ymwneud â gwrthdaro corfforol ac anghorfforol yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio tactegau dad-ddwysáu a chyfathrebu. Mae'r tactegau hyn yn hanfodol i atal sefyllfaoedd rhag troi'n drais neu wrthdrawiadau, gan leihau'r angen am rym. Trwy flaenoriaethu technegau cyfathrebu a dad-ddwysáu, yn aml gall swyddogion heddlu gyflawni datrysiadau heddychlon heb droi at ymyrraeth gorfforol. Mae hyn yn helpu adeiladu ymddiriedaeth ac mae'n sicrhau bod rhyngweithiadau â'r cyhoedd yn cael eu cynnal ag empathi, parch, a sensitifrwydd diwylliannol.

Lle mae'r ddeinameg pŵer yn nwylo'r swyddogion, mae gwell dealltwriaeth ganddynt o'r amrediad o dactegau ac offer sydd ar gael iddynt sy'n cynnwys technegau cyfathrebu a dad-ddwysáu yn ystyriaeth bwysig.

Mae'r Cod Moeseg diwygiedig yn nodi'n glir y disgwyliadau ar gyfer swyddogion heddlu a staff y mae eu dyletswydd i weithredu er budd y cyhoedd a 'meddwl sut y gallai [eu] gweithredoedd gael eu dehongli neu eu hamgyffred gan eraill wrth wneud penderfyniadau'. (Canllawiau ar gyfer ymddygiad moesegol a phroffesiynol mewn plismona)



## Achos enghreifftiol

Fe wnaethom ymchwilio i naw cwyn gan ddyn Du y defnyddiwyd taser yn ei erbyn dro ar ôl tro yn ystod ei arestiad, tra bo plentyn gydag ef. Roeddem yn ymwybodol o bryderon ynghylch y defnydd anghymesur o Taser ar ddynion Du a sefydlwyd grŵp cyfeirio cymunedol i ddeall effaith yr achos hwn. Trwy ein trafodaethau, clywsom bryderon rhwng disgwyliadau am pryd ddylai Taset gael ei ddefnyddio, a sut y mae canllawiau cenedlaethol yn caniatáu iddo gael ei ddefnyddio.

Gwnaethom archwilio gweithredoedd swyddogion yn ystod ac ar ôl arestio'r dyn, eu defnydd o rym, ac a gafodd y dyn ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei fod yn Ddu. Daethom i'r casgliad bod swyddogion wedi gweithredu yn unol â'r polisïau, canllawiau a gweithdrefnau perthnasol. Ni chanfuom ychwaith unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod ethnigrwydd yr achwynydd yn ffactor yn y penderfyniad i ddefnyddio grym yn ei erbyn.

Fodd bynnag, fe wnaethom nodi sawl maes dysgu yn ogystal â newidiadau sydd eu hangen ar lefel genedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys argymell, a dderbyniwyd gan yr heddlu, i sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o'u hiaith wrth gyfiawnhau eu defnydd o rym. Ni ddylent gyfeirio at ystrydebau cyffredin a allai wneud i'w gweithredoedd ymddangos yn wahaniaethol.

Rydym yn cydnabod y bydd sefyllfaoedd pan fydd angen defnyddio grym. Fodd bynnag, mae tryloywder a gwneud penderfyniadau teg yn hanfodol i sicrhau bod y cyhoedd, yn enwedig cymunedau yr effeithir arnynt yn anghymesur, yn ystyried yr heddlu yn gyfreithlon ac yn ddibynadwy. Gellir cyflawni hyn trwy ymgysylltu ystyrlon rhwng yr heddlu a chymunedau a gefnogir gan oruchwyliaeth leol a chenedflaethol.

### MAE SAYH YN CROESAWU

**Croesewir y ffocws a'r oruchwyliaeth gynyddol ar ddefnydd Taser dan arweiniad y Prif Gwnstabl Lucy D'Orsi, arweinydd NPCC ar gyfer Arfau Llai Marwol. Rydym wedi gweld newidiadau i gwricwlwm hyfforddi'r heddlu dan arweiniad y Coleg Plismona a chanllawiau a thechnoleg newydd NPCC i hwyluso adolygiad o ddefnydd Taser ar lefel leol.**

**Rydym hefyd yn croesawu'r ymrwymiad parhaol i'r maes hwn o blismona gyda gwaith wedi'i arwain gan yr NPCC i ymateb i ganfyddiadau'r ymchwil annibynnol i archwilio'r anghydraddoldebau cymdeithasol, ethnig a hiliol sy'n bodoli yn y defnydd o Taser. Nod y prosiect cenedlaethol hwn yw gwella'r defnydd o Taser a'r craffu arno, gan ymgorffori safbwyntiau pobl ifanc trwy swyddogaeth gynghori a sefydlwyd gan ein tîm ymgysylltu â rhanddeiliaid.**

## Tuedd oedolyneiddio

Mae tystiolaeth o rai o’n hachosion sy’n ymwneud â stopio a chwilio, defnyddio grym a noeth-chwiliadau yn codi pryderon am ymateb yr heddlu i blant Du a ddiffinnir fel tuedd oedolyneiddio. Dyma pryd nad yw diniweidrwydd a bregusrwydd yn cael eu rhoi i rai plant, gan y rhai sydd mewn safleoedd o bŵer ac awdurdod. Gall oedolyneiddio effeithio ar bob plentyn ond mae tuedd oedolyneiddio yn seiliedig ar wahaniaethu a thuedd sy’n effeithio’n benodol ar blant Du ac yn dylanwadu ar sut y cânt eu diogelu a’u hamddiffyn oherwydd stereoteipio hiliol (Davis, J a Marsh, N (2020)).

Mae’r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) yn disgrifio oedolyneiddio yn y ffordd ganlynol:

*Mae oedolyneiddio yn fath o duedd lle mae plant o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu hystyried yn fwy ‘strydgall’, yn fwy ‘aeddfed’, yn llai diniwed ac yn llai agored i niwed na phlant eraill. Mae hyn yn effeithio ar blant Du yn enwedig, a allai gael eu hystyried yn bennaf fel bygythiad yn hytrach na phlentyn sydd ag angen cymorth (Davis a Marsh, 2020; Canolfan y Gyfraith Georgetown ar Dlodi ac Anghydraddoldeb, 2019).ag Mae'n bosibl hefyd y bydd plant sydd wedi cael eu oedolyneiddio yn cael eu gweld fel rhai sydd â mwy o ddealltwriaeth o'u gweithredoedd a chanlyniadau eu gweithredoedd.('Diogelu plant o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol')*

Mae’n hanfodol bod swyddogion a staff yn deall sut y gall oedolyneiddio ddylanwadu ar eu penderfyniadau, gan arwain at driniaeth anghyfiawn a gwahaniaethol i blant. Mewn rhai o'n hachosion sy'n ymwneud â stopio a chwilio a defnyddio grym, rydym wedi gweld sut yr oedd swyddogion naill ai'n tybio bod plentyn yn hŷn nag yr oedd, ac felly heb gymhwyso mesurau diogelu priodol; neu eu bod yn gwybod bod plentyn o dan 18 oed ond yn dal i fethu â chymhwyso mesurau diogelu addas. Mae cymunedau a rhanddeiliaid yn ystyried bod y camau hyn yn cael eu harwain gan stereoteipiau hiliol am y tebygolrwydd canfyddedig o ymddygiad troseddol ymhlith plant Du. Mae pryderon penodol yn cynnwys diffyg ystyriaeth i risgiau diogelu a chymesuredd gweithredoedd yr heddlu a allai awgrymu bod plant yn cael eu cadw i safon oedolyn yn hytrach na phlentyn.



## Achos enghreifftiol

Cafodd plentyn Du 14 oed ei wthio i'r llawr gan ddau swyddog a ymatebodd i adroddiad fod pedwar o blant ysgol uwchradd yn defnyddio cyllell yn dwyn oddi ar fachgen 13 oed. Eu sail dros gadw'r bachgen yn y ddalfa oedd eu bod yn credu ei fod yn un o'r rhai o dan amheuaeth.

Cawsom gŵyn fod swyddogion wedi defnyddio gormod o rym i roi gefynnau ar y bachgen, mynd ag ef i'r llawr, penlinio ar ei gefn a bod y driniaeth ohono wedi cael ei hysgogi gan wahaniaethu ar sail ei hil a'i oedran.

Canfuom y dylai dau swyddog wynebu achos disgyblu am achosion honedig o dorri safonau ymddygiad proffesiynol yr heddlu yn ymwneud:

- â'u defnydd o rym wrth roi gefynnau ar y plentyn
- gorchmynion a chyfarwyddiadau, a gonestrwydd ac uniondeb, yn ymwneud â gweithredoedd a sylwadau'r swyddogion a wnaed yn ystod y cyfnod stopio a chwilio
- cydraddoldeb ac amrywiaeth, am yr honnir iddynt wahaniaethu yn erbyn y plentyn oherwydd ei hil a'i oedran.

Canfu panel annibynnol fod gweithredoedd y swyddogion yn gyfystyr â chamymddwyn am dorri safon ymddygiad proffesiynol yr heddlu yn ymwneud â defnyddio grym i roi gefynnau ar y bachgen am gyfnod hwy nag oedd angen; a thros gydraddoldeb ac amrywiaeth am fethu â gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer y plentyn.

Profwyd bod rhai swyddogion hefyd wedi torri safon ymddygiad proffesiynol yr heddlu o ran uniondeb ac awdurdod, parch a chwrteisi. Fel rhan o'n hymchwiliad, fe wnaethom nodi dysgu ar gyfer y llu, yn bennaf mewn perthynas â'i bolisi ar adnabod rhai a amheuir yn weledol a'i weithrediad i swyddogion.

Fe wnaethom adolygu cyfres o ymchwiliadau'r IOPC oedd yn cynnwys chwiliadau o blant, y tu mewn a'r tu allan i'r ddalfa, oedd yn ymwneud â datgelu rhannau preiaft o'r corff (EIP). Fe wnaethom nodi bylchau yn y canllawiau sy'n rhoiplant mewn perygl ac argymell adolygiado ganllawiau a hyfforddiant cenedlaethol ynghylch y chwiliadau hyn

### MAE SAYH YN CROESAWU

**Rydym yn falch fod y Swyddfa Gartref wedi ymgynghori ar ddiwygiadau arfaethedig i Godau A a C PACE sy'n ymwneud â chwiliadau o blant sy'n datgelu rhannau preifat o'r corff. Mae llawer o'r diwygiadau arfaethedig yn cydgyfeirio â'r** 10 argymhelliad cenedlaethol **rydym wedi'u dosbarthu i'r Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Coleg Plismona i wella trefniadau diogelu i blant sy'n destun chwiliadau o'r fath.**

Mae gan yr heddlu gyfrifoldebau penodol o dan Adrannau 10 ac 11 o *Ddeddf Plant 2004*i amddiffyn plant. Maent yn un o dri phartner statudol mewn partneriaethau diogelu lleol sy'n ymroddedig i les plant. Mae'r lleill yn cynnwys awdurdodau lleol a byrddau gofal integredig.

Mae plismona pobl ifanc yn effeithiol yn cynnwys eu hamddiffyn rhag erledigaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y gall pobl ifanc fod yn agored i wahanol fathau o gamfanteisio a niwed. Mae'n bwysig i blismona ddeall y ddeinameg pŵer yn eu rhyngweithio â phlant a lliniaru'r risg o ragfarn oedolyneiddio drwy sicrhau bod anghenion lles a diogelu plant yn cael blaenoriaeth.

Mewn grwpiau ffocws dan arweiniad Crest Advisory, dywedodd plant o ethnigrwydd Du a chymysg eu bod am ymddiried yn yr heddlu ond eu bod yn teimlo na allant wneud hynny oherwydd rhyngweithiadau negyddol yr oeddent hwy neu bobl sy'n agos atynt wedi'u profi neu eu gweld ar-lein. Roedd plant du yn sylweddol llai tebygol o ofyn am gymorth gan yr heddlu neu gyfleu eu pryderon i'r heddlu os oeddent mewn perygl na phlant o unrhyw grŵp ethnig arall (gweler 'Lleisiau wedi'i anghofio: Plismona, stopio a chwilio a safbwyntiau plant Du') . Mae'r lefelau hyder isel a adroddwyd gan blant Du, yn enwedig y rhai o gefndiroedd Caribïaidd, yn haeddu sylw arbennig.

*"Mae'n rhaid i ni allu cael ffydd yn yr heddlu. Maen nhw'n ein hamddiffyn ni rhag perygl. Mae angen inni allu dweud wrth ein plant am fynd atyn nhw pan fyddant mewn perygl. Rydym yn rhoi pwerau eithriadol i'r heddlu ac rydym yn ymddiried ynddynt i'w defnyddio'n gyfrifol. Dyna sut mae plismona trwy ganiatâd yn gweithio."*
*Y Farwnes Louise Casey Adolygiad y Farwnes Casey*

Amlygodd aelodau o'n Panel Ieuenctid y pwysigrwydd o'r heddlu yn deall ac yn ymateb yn fwy effeithiol i drawma – gan gynnwys y trawma a all gael ei achosi gan yr heddlu. Yn eu hadroddiad arolwg cenedlaethol a gyhoeddwyd ym Mai 2024 fe wnaethant argymell bod pob swyddog yn derbyn hyfforddiant gorfodol mewn sgiliau ymagwedd ystyriol o drawma a dad-ddwysáu i helpu swyddogion i gyfathrebu ac ymgysylltu a phobl ifanc yn effeithiol a gwella rhyngweithiadau megis stopio a chwilio.

### MAE SAYH YN CROESAWU

**Cawn ein calonogi gan**Strategaeth Plismona Plant a Phersonau Ifanb NPCC 2024-2027**sy'n ceisio creu diwylliant o blismona wedi'i ganolbwyntio ar blant ledled Cymru a Lloegr sy'n gyfreithlon, effeithiol, teg ac sy'n lleihau trawma. Yn y strategaeth, rydym yn croesawu'r ffocws ar barchu a chydnabod anghenion, gwendidau ac amrywiaeth plant o dan 18 oed waeth beth fo'u lefelau aeddfedrwydd ac oedran a gyflwynir neu a ragdybir. Mae ymdrechion i sicrhau bod plismona yn weithdrefnol gyfiawn, yn ddiduedd, yn gynhwysol ac yn wrth-hiliol hefyd yn galonogol. Mae'r ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn at blismona yn ceisio adnabod anghydraddoldeb yn weithredol mewn plismona plant a phobl ifanc ae draws amrediad o ffactorau, gan gynnwys hil, a golwg ar esbonio pam mae anghydrtaddoldeb yn bodoli, neu i ddiwygio ymarfer.**

**Plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn:**

- Mae'n cael ei ystyried yn gyfreithlon gan ei fod yn gyfreithlon, effeithiol ac yn cael ei gymhwyso'n deg yn unol â'n gwerthoedd, y Cod Moeseg a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Mae'n lleihau trawma i blant a phobl ifanc pan fydd yr holl ymarfer a chyswllt yn ddiwylliannol gymwys, yn grymuso, yn cydweithredu, yn darparu dewis, yn ddibynadwy ac yn dod â diogelwch. (Strategaeth Plismona Plant a Phobl Ifanc NPCC 2024-2027)

## Yr absenoldeb o gwrteisi a pharch

**Bydd swyddogion heddlu yn ymddwyn â hunanreolaeth a goddefgarwch, gan drin aelodau'r cyhoedd a chydweithwyr â pharch a chwrteisi. Nid yw swyddogion heddlu yn camddefnyddio eu pwerau na'u hawdurdod ac maent yn parchu hawliau pob unigolyn.**
*Safonau Ymddygiad Proffesiynol i swyddogion heddlu (Awdurdod, parch, a chwrteisi) o'r Rheoliadau Heddlu (Ymddygiad) 2020 Atodlen 2*

Thema arall yr ydym wedi'i gweld mewn rhai o'n hachosion sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil, yw absenoldeb nodedig o gwrteisi a pharch, gan gynnwys diffyg gofal/empathi yn y dull plismona. Mae'r thema hon yn ymdrin ag amrediad ehangach o sefyllfaoedd lle mae'r gwrthrych neu'r dioddefwr o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Ymhlith yr ymddygiadau a ddangosir mae anfoesgarwch, diystyriaeth, defnydd gormodol o rym, cam-drin geiriol neu fethiant i wrando ar bryderon.

Mae cwrteisi a pharch yn safon plismona o ymddygiad proffesiynol. Fodd bynnag, gall torri'r safon hon a welwyd gan aelodau'r gymuned sydd yn barod â hanes o ddiffyg ymddiriedaeth mewn plismona waethygu tensiynau rhwng y cyhoedd a'r heddlu. O'n hymgysylltiad â chymunedau o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, rydym yn gwybod, pan fo swyddogion yn dangos ymddygiad ansifil sy'n gwrth-ddweud eu safonau disgwyliedig, ei fod yn aml yn cael ei ystyried yn wahaniaethol ac yn tanseilio cyfreithlondeb. Mae aelodau'r gymuned a rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod rhyngweithiadau negyddol o'r fath yn fath cynnil o wahaniaethu y gellir ei ystyried yn lefel isel ond sydd â'r un lefel o effaith ag ymddygiad gwahaniaethol amlwg. Mae'r ymddygiadau hyn yn atgyfnerthu stereoteipiau negyddol a phrofiadau o wahaniaethu ar sail hil.

Gall fod yn heriol gwahaniaethu rhwng darpariaeth gwasanaeth gwael ac ymddygiad annheg/gwahaniaethol. Weithiau maent yn ymddangos yn debyg ac yn digwydd oherwydd materion tebyg, megis diffyg hyfforddiant. Fodd bynnag, pan ddangosir diffyg cwrteisi a pharch at gymunedau y mae gwahaniaethu yn effeithio arnynt, gall barhau â chylch o ryngweithio negyddol a dwysáu sefyllfaoedd sy'n atgyfnerthu diffyg ymddiriedaeth. Mae sefyllfaoedd lle mae diffyg cwrteisi a pharch yn gyfleoedd colledig i ddangos agwedd deg a pharchus at blismona.



## Methiannau i gynorthwyo dioddefwyr troseddau o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ddigonol

**"Mae'r berthynas rhwng plismona a chymunedau Du wedi'i niweidio gan dystiolaeth o hiliaeth, yn ogystal â methiannau mewn amddiffyniad a chymorth a brofwyd gan lawer o bobl Ddu dros y blynyddoedd".**

*Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu*

Mae teuluoedd o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi lleisio anfodlonrwydd ag ymateb yr heddlu wrth eu cynorthwyo fel dioddefwyr, gan honni bod gwahaniaethu ar sail hil yn amlwg yn y gweithredoedd, yr agweddau a'r ymddygiadau a ddangoswyd. Mae'n rhywbeth sy'n peri pryder a gydnabyddir gan Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu.

Mewn rhai o'n hachosion, rydym wedi canfod bod lefel y gwasanaeth a ddarperir gan heddluoedd yn annerbyniol. Mae darpariaeth gwasanaeth gwael wedi bod yn ffactor yn y modd yr ymdriniwyd gan yr heddlu â rhai y gellir ei ystyried yn wahaniaethol gan unigolion a chymunedau sydd ag ychydig neu ddim hyder mewn plismona. Yn ystod cyfnod o boen a thrallod sylweddol, mae unrhyw ddiffygion drwy blismona yn rhoi pwysau ychwanegol ar bryderon gan unigolion a theuluoedd ynghylch a ydynt yn cael eu clywed a'u cymryd o ddifrif.

### Achos enghreifftiol

Ar ôl cynnal ymchwiliad annibynnol i gwynion ynghylch y modd yr ymdriniodd heddlu ag achos person ar goll yn ymwneud â dyn Du ifanc, gwnaethom gyhoeddi cyfres o argymhellion gyda'r nod o wella lefel y gwasanaeth i bobl sy'n gwneud adroddiadau am berson ar goll. Derbyniodd yr heddlu ein hargymhellion.

Ystyriodd ein hymchwiliad a oedd ethnigrwydd y person coll neu ei riant wedi chwarae rhan yn y ffordd yr ymdriniwyd ag adroddiadau cychwynnol eu diflaniad. Gwelsom fod swyddogion yn darparu lefel annerbyniol o wasanaeth i fam y person coll a fu farw. Cawsant eu camarwain bod eu pryderon wedi'u rhoi i'r tîm priodol a oedd yn ymdrin ag adroddiad y person coll a bod yr heddlu'n ymchwilio i'r achos, pan oedd yr adroddiad yn parhau ar gau ar system yr heddlu ac nad oedd eu gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo. Roedd ychydig iawn o ddealltwriaeth hefyd am gyflwr meddygol y person oedd ar goll sy'n fwy cyffredin ymhlith pobl o gefndir Du. Asiaidd a lleiafrifol ethnig, a methodd y swyddog â nodi'r pryderon a godwyd gan Feddyg Teulu'r person coll.

Gwnaethom argymell bod yr heddlu yn cynnal adolygiad hapsampl o adroddiadau pobl ar goll a oedd wedi'u dosbarthu nad oedd y person dan sylw ar goll mewn gwirionedd. Roedd hyn er mwyn gwirio bod yr adroddiadau'n cael eu hasesu'n gywir, ar ôl i'n hymchwiliad ganfod achosion eraill lle'r oedd achosion wedi'u dosbarthu'n anghywir yn y modd hwnnw.

## Achos enghreifftiol

Roedd menyw Ddu yn gweithio fel nani i deulu Asiaidd, a hefyd yn byw gyda nhw. Digwyddodd ffrae rhwng y ddynes a'i chyflogwr, sy'n ddyn Asiaidd, a arweiniodd at alw'r heddlu i'r cartref. Dywedodd y fenyw Ddu fod ei chyflogwr wedi ymosod arni. Fodd bynnag, ni wnaeth y swyddogion a oedd yn bresennol gyflwyno'r honiad hwn i'r dyn Asiaidd, a thra bod y ddynes Ddu wedi tynnu sylw at ei hanafiadau i'r swyddogion, roeddynt yn haeru mai anghydfod sifil oedd y mater ac nid mater troseddol.

Er i'r fenyw Ddu a'r dyn Asiaidd alw'r heddlu, roedd y swyddogion yn bygwth rhoi tocyn i'r ddynes Ddu yn unig am wastraffu amser yr heddlu. Mae fideo a wisgwyd ar y corff yn dangos bod swyddogion, wrth adael, wedi dweud wrth y fenyw Ddu nad oedden nhw am gael ei galw yn ôl ond wedi dweud wrth y dyn Asiaidd i alw os oedd ganddo unrhyw broblemau. Labelodd y swyddogion y fenyw Ddu yn gwerylgar ac anghydweithredol.

Ar ol hynny, aeth y fenyw Ddu i orsaf heddlu i adrodd bod ei chyflogwr wedi ymosod arni; nodwyd bod ganddi anafiadau a chafodd driniaeth yn yr ysbyty.

Mae'r gŵyn, a wnaed ar ran y fenyw Ddu, yn datgan ei bod wedi dioddef caethwasiaeth fodern ond anwybyddwyd arwyddion yn cyfeirio at hyn. Gwrthododd swyddogion adroddiad y fenyw Ddu o ymosodiad trwy beidio â holi'r cyflogwr. Amlygodd ei hadroddiad y gallai cleisio fod yn anoddach i'w weld oherwydd bod ganddi 'groen du'.

Yn dilyn ein hadolygiad annibynnol o'r dystiolaeth oedd ar gael, daethom i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod swyddogion heddlu yn defnyddio iaith amlwg hiliol neu rywiaethol. Fodd bynnag, roedd eu hiaith a'u naws tuag at y fenyw Ddu yn sylweddol wahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd i gyfarch y dyn Asiaidd. Canfuom fod tystiolaeth yn cyfeirio at ymddygiad gwahaniaethol ar sail rhyw a hil, gan gynnwys y swyddog yn defnyddio stereoteipiau sy'n gysylltiedig â menywod Du.

Cyfarwyddwyd y swyddog i ymgymryd ag ymarfer myfyriol, proses ar gyfer ymdrin ag arfer yr heddlu sydd angen ei gwella.



## Rhannu pethau amhriodol, tramgwyddus, a gwahaniaethol ar gyfryngau cymdeithasol

Mae swyddogion heddlu yn rhannu pethau amhriodol, tramgwydus a gwahaniaethol ar gyfryngau cymdeithasol yn broblem sy'n tyfu, Mae'n tanseilio ymddiriedaeth a hyder mewn plismona a gall ddangos i'r cyhoedd bod agweddau gwahaniaethol yn cael eu goddef, y gweithredir arnynt neu hyd yn oed eu cymeradwyo. Gall hyn leihau parch yn sylweddol ac arwain at ganfyddiadau negyddol ychwanegol o blismona.

Mae canfyddiadau ein Traciwr Canfyddiadau'r Cyhoedd 2022/23 yn dangos bod rhannu negeseuon amhriodol, hiliaeth a chasineb at fenywod o fewn yr heddlu wedi arwain at gynnydd mewn teimladau negyddol tuag at yr heddlu. Mae tynnu sylw at ymddygiad gwahaniaethol yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth, hyrwyddo tegwch a dangos ymrwymiad i drin pob cymuned ag urddas a pharch.

**Ymgyrch Hotton** – ymchwiliadau i wahaniaethu, casineb at fenywod, aflonyddu a bwlio yn ymwneud â swyddogion sydd wedi'u lleoli'n bennaf yng Ngorsaf Heddlu Charing Cross. Mewn naw ymchwiliad annibynnol cysylltiedig, canfuom dystiolaeth o negeseuon ffôn symudol gwahaniaethol a sarhaus rhwng swyddogion sydd wedi'u lleoli'n bennaf mewn un orsaf heddlu. Siaradodd swyddogion heddlu Du ac Asiaidd am gael eu heithrio.

Gwelsom negeseuon a oedd yn tystio i wawdio dro ar ôl tro o grefyddau nad ydynt yn Gristnogol, y mudiad Black Lives Matter, pobl ag anableddau, hiliaeth a homoffobia.

Gwnaeth ein hadroddiad dysgu bymtheg argymhelliad dysgu i fynd i'r afael â materion diwylliannol sylfaenol, bwlio a gwahaniaethu. Amlygodd bwysigrwydd tynnu sylw at ymddygiadau anaddas ac roedd yn cynnwys enghreifftiau o'r negeseuon a rannwyd gan rai swyddogion. Er ein bod yn cydnabod y gall cyhoeddi'r negeseuon yma dramgwyddo a chynhyrfu'r cyhoedd, roeddem yn teimlo bod angen hyrwyddo tryloywder a darparu cyd-destun ar gyfer ein hargymhellion.

## Astudiaeth Achos

Cafodd swyddog a oedd yn rhan o sgwrs WhatsApp lle’r oedd negeseuon hiliol a misogynistaidd yn cael eu rhannu ei ddiswyddo yn dilyn ‘ymchwiliad dan gyfarwyddyd’ gan SAYH. Mewn ymchwiliad wedi'i gyfarwyddo, rydym yn cyfarwyddo ac yn rheoli'r ymchwiliad gan ddefnyddio adnoddau'r heddlu

Cawsom atgyfeiriad gan heddlu ar ôl i ymchwiliad cyfarwyddedig gan SAYH ganfod tystiolaeth o negeseuon ffôn pryderus rhwng swyddogion y byddwn yn eu galw’n Swyddog A a Swyddog B.

Fel rhan o’r ymchwiliad, cafwyd negeseuon o ffôn Swyddog B a gafodd ei ddedfrydu am negeseuon sarhaus ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys deunydd hiliol. Canfu gwrandawiad disgyblu y byddent wedi cael eu diswyddo pe na baent eisoes wedi ymddiswyddo.

Roedd y negeseuon a gafwyd o'r ffôn yn dangos sgwrs WhatsApp rhwng yr unigolyn hwn a'r Swyddog A, a ddechreuodd cyn iddynt ymuno â'r heddlu.

Dangosodd y dystiolaeth eu bod wedi methu â herio negeseuon tramgwyddus yn cynnwys sylwadau hiliol a jôc am dreisio hyd yn oed ar ôl i Swyddog A ymuno a'r heddlu. Fe wnaethon nhw hefyd anfon negeseuon yn cyfeirio at gydweithwyr benywaidd a oedd yn cael eu hystyried yn misogynistig.

Roedd y negeseuon hefyd yn dangos bod Swyddog A yn ymwybodol o farn hiliol Swyddog B cyn iddo ymuno â’r heddlu. Methodd Swyddog A â chodi pryderon am hyn.

Ar ôl derbyn adroddiad yr ymchwilydd, fe wnaethom benderfynu bod gan Swyddog A achos i’w ateb am gamymddwyn difrifol mewn perthynas â thoriadau honedig o safonau ymddygiad proffesiynol yr heddlu o ran: awdurdod, parch a chwrteisi; cydraddoldeb ac amrywiaeth; ymddygiad annheilwng; a herio ymddygiad anaddas a rhoi gwybod amdano.

Mewn gwrandawiad camymddwyn difrifol, cyfaddefodd Swyddog A iddo anfon ac ymateb i negeseuon tramgwyddus, yn ogystal â’i fethiant i adrodd ar y negeseuon a dderbyniwyd.

Canfu’r panel fod yr achos wedi’i brofi ar lefel camymddwyn difrifol a chafodd ei ddiswyddo heb rybudd.

**“Mae ymddygiad fel hwn yn tanseilio ymdrechion y mwyafrif mawr o swyddogion, sy'n gweithio'n anhygoel o galed mewn amgylchiadau heriol i'n cadw'n ddiogel. Dyna pam mae hi mor bwysig i gydweithwyr herio ac adrodd am y fath agweddau lle maen nhw'n cyfarfod â nhw.”**
*Cyfarwyddwr Rhanbarthol SAYH*



Arweiniodd y thema hon oedd yn codi atom yn ysgrifennu at yr NPCC, gan ofyn iddynt atgoffa swyddogion heddlu bod y fath ymddygiad gan swyddogion heddlu sy'n gwasanaethu yn annerbyniol ac yn eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau o dan y Cod Moeseg a Safonau Ymddygiad Proffesiynol. Fodd bynnag, mae'r duedd hon yn parhau.

### MAE SAYH YN CROESAWU

**Rydym yn croesawu'r Cod Moeseg diwygiedig sy'n nodi'n glir y disgwyliadau uchel y gofynnir amdanynt gan swyddogion a staff yr heddlu. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar gyfer ymddygiad moesegol a phroffesiynol mewn plismona ac mae’n cynrychioli cam cadarnhaol tuag at wella camau gweithredu, ymddygiad a safonau.**

**Mae gwasanaethu er lles y cyhoedd a meithrin ymddiriedaeth i’w gymryd o ddifrif a chroesawn y pwyslais cynyddol ar yr agwedd hon yn y Cod Moeseg wedi’i arwain gan egwyddorion gan gynnwys parch ac empathi. Mae’n cyfeirio at themâu a welwn yn ein gwaith â chyfeiriad penodol at “sicrhau nad yw ymddygiad ac iaith swyddogion a staff yr heddlu “yn wahaniaethol, yn sarhaus, yn ormesol, yn aflonyddu, yn bwlio nac yn erlid y cyhoedd yn gyffredinol…neu [eu] cydweithwyr plismona. . Mae hyn yn cynnwys pan maent yn cyfathrebu’n ddigidol (gan gynnwys e-bost, SMS a llwyfannau digidol eraill) ac wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, y tu mewn a’r tu allan i’r gwaith.”**

Mae'r ffocws hwn ar sut mae swyddogion heddlu a staff yn ymddwyn yn cael ei gefnogi gan gyflwyno gwasanaeth adrodd cenedlaethol i'r cyhoedd adrodd am lygredd a cham-drin difrifol gan unigolion o fewn plismona. Mae Gwasanaeth Adrodd Gwrthlygredd a Cham-drin yr Heddlu yn ymdrin â gwybodaeth sy'n ymwneud â swyddogion, staff a gwirfoddolwyr sy'n ymddwyn yn hiliol, homoffobig, misogynistaidd neu'n erbyn pobl anabl, ar ddyletswydd neu oddi ar ddyletswydd, yn bersonol neu ar-lein. Mae ganddo ymrwymiad pob pennaeth heddlu a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) i ddiwygio safonau'r heddlu a gwella agweddau ac ymddygiad.

Mae'n rhaid i brif gwnstabliaid ddangos arweinyddiaeth gadarn sy'n cael ei hadlewyrchu ar bob lefel â mwy o oruchwyliaeth ac atebolrwydd i arwain y newidiadau angenrheidiol yn y ffordd y mae plismona'n gweithredu heddiw.

"Mae'n hanfodol bod heddluoedd ac arweinwyr heddlu yn cymryd mwy o berchnogaeth gyhoeddus ar gamgymeriadau a chamymddwyn, ac yn rhoi gwybod i'r cyhoedd beth sy'n cael ei wneud i ddiwygio plismona...mae diwylliant o aros yn dawel yn llygad y cyhoedd yn niweidio ymddiriedaeth ac mae angen newid hyn."

Argymhellion o Adroddiad Arolwg Cenedlaethol Panel Ieuenctid yr SAYH, Mai 2024



# Delio â honiadau o wahaniaethu ar sail hil yng nghwynion yr heddlu

Mae system gwynion yr heddlu yn rhan bwysig o atebolrwydd yr heddlu ac yn hanfodol ar gyfer dysgu a gwella. Mae'n rhoi sianel i'r cyhoedd leisio pryderon ynghylch sut mae rhywun wedi cael ei drin neu'r gwasanaeth y mae wedi'i dderbyn, sy'n rhoi mewnwelediadau gwerthfawr a chyfleoedd ar gyfer gwelliannau. Fodd bynnag, er gwaethaf lefel y pryderon a godwyd drwy ein gwaith ymgysylltu ynghylch gwahaniaethu ar sail hil o fewn yr heddlu, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn nifer cwynion yr heddlu.

Yn 2023/24, dangosodd ein hadroddiad blynyddol ar ystadegau cwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr fod dros 85,000 o gwynion wedi'u cofnodi yn erbyn yr heddlu yn ymwneud â thua 151,000 o honiadau. Roedd ymddygiad gwahaniaethol yn cyfrif am 3% o'r holl honiadau, ac roedd hanner y ganran honno'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil.

Mae'r rhan fwyaf o gwynion yn cael eu trin gan yr heddlu heb unrhyw gyfranogaeth gan SAYH. Ein nod yw ymchwilio i'r cwynion a'r digwyddiadau mwyaf difrifol ac gosod y safonau y dylai'r heddlu ymdrin â chwynion yn eu herbyn. Ond rydym yn gweld lefelau isel o hyder yn y modd y mae'r heddlu'n delio â chwynion gyda dirywiad yn lefelau hyder pob grŵp.

Mae ein Traciwr Canfyddiadau'r Cyhoedd 2023/24 yn dangos bod dros hanner y cyhoedd yn ddihyder bod yr heddlu'n delio'n deg â chwynion a wneir yn eu herbyn. Nid oedd 55% o gyfranogwyr Du a Gwyn yn hyderus yn y broses. Ar gyfer cyfranogwyr Asiaidd a chymysg, roedd yn 45% a 48% yn y drefn honno. Rhannwyd safbwyntiau cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar system gwynion yr heddlu gyda ni drwy ein gwaith ymgysylltu.

*"Mae'r broses gwyno yn ddiraddiol, yn drawmatig i bobl…Mae pobl wedi dadsensiteiddio i'r broses gyfan."*

*"Pam byddai pobl yn cwyno i'r bobl/ gwasanaeth sydd wedi'i trin yn wael, ac yn ymddiried y byddan nhw'n ymchwilio i'w cwyn yn deg? Ni fyddai eisiau ar y rhan fwyaf o bobl o'r gymuned i hyd yn oed fynd i mewn i'r arena hon."*

*"Mae angen i achwynwyr fod yn hyderus bod y person rydym yn cwyno iddo yn deall yr achwynydd."*

*"Yr unig ffordd i gefnogi hyn yw trwy eiriolaeth."*

*"Mae hanes o fethiannau i roi cyfrifoldeb ar yr heddlu (e.e. achos Stephen Lawrence) yn ei gwneud iddi deimlo'n ddibwrpas i'r cyhoedd gwyno."*

Yn 2022, fe wnaethom gynnal adolygiad o apeliadau ac adolygiadau SAYH i gael mewnwelediad i'r modd yr ymdriniwyd â chwynion yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil. Dangosodd y data mai dim ond cyfran fechan o gwynion a arweiniodd at gosb ddisgyblu ffurfiol ar gyfer y swyddog heddlu a/neu aelod o staff.

Roeddem yn pryderu am y posibilrwydd o ddiswyddo cwynion 'ar sail canfyddiad' a

sut y gall hyn erydu ymddiriedaeth mewn plismona ymhellach. Roedd achwynwyr yn aml yn disgrifio hyn fel 'gwahaniaethu dwbl' neu gael ei 'ddiswyddo ddwywaith'. Ar ôl gwneud ymdrech i wneud cwyn ynglyn â gwahaniaethu ar sail hil, diystyrwyd eu profiad ymhellach wrth ymdrin â'r gŵyn, a arweiniodd at ofyn am adolygiad.

Yn ystod ein hadolygiad, canfuom fod arwydd bod y rhai sy'n ymdrin â chwynion weithiau'n ei chael yn anodd i fynd i'r afael â chwynion gwahaniaethu hiliol mwy cynnil, yn enwedig lle nad oedd y gwahaniaethu honedig yn amlwg. Roedd y ffordd y mae swyddogion neu staff yr heddlu yn cyflawni eu dyletswyddau wedi cael sylw priodol, ond nid yr agwedd gwahaniaethu.

Mae cwynion yn gyfle i wella a dylid eu cymryd o ddifrif a'u hymchwilio'n ddwfn i ymateb i unrhyw bryderon dilys. Mae canlyniadau dysgu yn rhan allweddol o'r broses hon, gan eu bod yn dangos bod pryderon yn cael eu cydnabod a'u defnyddio i wella arferion plismona. Yn achos gwahaniaethu ar sail hil, mae'r gallu i nodi a deall sut y mae'n ei gyflwyno yr un mor bwysig i sicrhau nad yw pryderon a godir yn cael eu 'hesbonio' yn rhy hawdd.



## Achos enghreifftiol

Fe wnaethom gynnal adolygiad o'r modd yr ymdriniodd heddlu â chwyn ynglyn â gweithredoedd y swyddog lle defnyddiwyd grym gormodol yn ystod arestiad.

Gorchmynnwyd nifer o bobl i adael tafarn gan swyddogion a oedd yn mynychu adroddiadau o ymladd ar y safle yn ymwneud â llawer o bobl. Defnyddiodd un o'r swyddogion a oedd yn bresennol chwistrell CS yn ystod arestio dyn Du yno.

Canfu ymchwiliad yr heddlu i'r gŵyn fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol o ran ei onestrwydd a'i uniondeb, ac ymddygiad annheilwng. Fodd bynnag, gofynnodd yr achwynydd am adolygiad o'r penderfyniad nad oedd gan y swyddog achos i'w ateb mewn perthynas â'u defnydd o rym, a chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Fe wnaethom adolygu adroddiad ymchwiliad yr heddlu, a'r dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys ffilm o'r digwyddiad. Gwelsom fod digon o dystiolaeth bod defnydd y swyddog o rym yn anghymesur o dan yr amgylchiadau.

Nid oedd y fideo yn cefnogi cyfiawnhad y swyddog dros ddefnyddio chwistrell analluogi - sef bod y dyn wedi ceisio ymosod arnynt â gwydr. Nid oedd yr achwynydd yn wynebu unrhyw gyhuddiadau mewn perthynas â'i arestio.

Ystyriasom hefyd driniaeth y dyn, sef yr unig ddyn Du oedd yn bresennol, a'r unig berson a ddarostyngwyd i'r defnydd o rym, yn ogystal â pheth o'r iaith a ddefnyddiwyd gan y swyddog mewn perthynas â'r dyn yn dilyn y digwyddiad, a allai nodi iddo gael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei hil.

Fe wnaethom benderfynu hefyd y dylai'r panel ystyried a oedd y swyddog wedi torri'r safonau ymddygiad proffesiynol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Canfu'r panel fod camymddwyn difrifol wedi'i brofi mewn perthynas â defnydd y swyddog o rym; gonestrwydd ac uniondeb; ac ymddygiad annheilwng. Canfu'r panel nad oedd yr achos wedi'i brofi o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth. O ganlyniad, diswyddwyd y swyddog heb rybudd.

Er bod y panel yn fodlon yn yr achos hwn na chafodd yr achwynydd ei drin yn anffafriol oherwydd ei hil, roedd defnydd gormodol y swyddog o rym, a datganiadau camarweiniol wrth geisio cyfiawnhau ei weithredoedd, ymhell islaw'r safonau a ddisgwylir gan swyddog heddlu.

Ym mis Rhagfyr 2022, fe wnaethom gyhoeddi rhifyn arbennig o'n cylchgrawn FOCUS i helpu heddluoedd i wella'r modd y maent yn ymdrin â chwynion yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil. Amlygwyd y rhwystrau mwyaf cyffredin i ymdrin â chwynion yn effeithiol mewn perthynas â honiadau o wahaniaethu ar sail hil. Cydnabod yr heriau pan fo gwahaniaethu a/neu ragfarn yn ymwneud â nodwedd warchodedig lle gall y pethau manwl fod yn wahanol i'r pobl sy'n ymdrin â'r gŵyn. Roedd y meysydd ffocws allweddol yn cynnwys:

- Ateb y gŵyn mewn ffordd nad yw'n ddiystyriol.
- Adolygu'r dystiolaeth drwy herio safbwyntiau posibl.
- Hyrwyddo diwylliant o ddysgu a myfyrio.
- Diogelu achwynwyr rhag unrhyw effaith wahaniaethol a deimlir o fewn y broses gwyno.

Cynhaliom gyfres o weithgareddau rhanbarthol â'r rhai sy'n ymdrin â chwynion i rannu'r hyn a ddysgwyd a deall eu heriau ychwanegol wrth ymdrin â chwynion yn ymwneud â gwahaniaethu. Fe wnaeth hyn lywio ein diwygiadau i'r canllawiau ar ymdrin â honiadau yn ymwneud â gwahaniaethu.

Mae ymdrin â chwynion yn effeithiol yn chwarae rol bwysig wrth adfer hyder coll. Pan fydd pobl yn credu bod mecanwaith effeithiol ar gyfer delio â phryderon plismona, gall eu hyder yn y gwasanaeth cyffredinol gael ei ddylanwadu mewn ffordd bositif.

Mae ein Traciwr Canfyddiadau Cyhoeddus ar gyfer 2023/24 yn dangos, er gwaethaf lefelau isel o hyder yn yr heddlu i ymdrin â chwynion yn deg, roedd y tebygolrwydd o gwyno yn 58%. Ar gyfer cyfranogwyr Du roedd hyn yn 60%, gan gynyddu i 62% i gyfranogwyr sy'n nodi eu bod yn 'gymysg'. Ar gyfer cyfranogwyr Asiaidd roedd 63% yn debygol o gwyno ac ar gyfer cyfranogwyr Gwyn roedd yn 64%.

***Mae'n bwysig defnyddio iaith sy'n dangos cydymdeimlad ac nad yw'n amddiffynnol neu'n ddiystyriol, ac sy'n cydnabod sut y gwnaeth y rhyngweithio â'r heddlu wneud i'r achwynydd teimlo – a'r effaith y mae wedi'i chael. Mae'n bwysig fod yr achwynydd yn teimlo ei fod wedi cael gwrandawiad – efallai nad yw ei brofiad negyddol o ryngweithio â'r heddlu ei un cyntaf, a agll yr ymatebion dderbyniwyd deimlo'n ailadroddus os yw ymadroddi safonol yn cael ei ddefnyddio.***

Trwy ein swyddogaeth oruchwylio, sy'n adolygu sut mae'r heddlu'n ymdrin â chwynion, rydym wedi gweld sut mae rhai heddluoedd wedi cyflwyno mecanweithiau i sicrhau ansawdd eu hymdriniaeth o gwynion sy'n ymwneud â honiadau o wahaniaethu ar sail hil. Rydym yn croesawu'r ymgysylltu cadarnhaol â'r cynlluniau lleol a rannwyd â ni.



## MAE SAYH YN CROESAWU

**Enghreifftiau o gynlluniau'r heddlu i wella'r modd yr ymdrinnir â chwynion sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil**

**Mae Cwnstabliaeth Swydd Gaerhirfryn wedi cyflwyno rôl cynghorydd cwynion i gynnal adolygiadau o bob cwyn gwahaniaethu i nodi themâu a thueddiadau. Mae'r adolygiadau hyn wedi arwain at hyfforddi'r rhai sy'n ymdrin â chwynion yn fwy alluog i nodi cwynion am wahaniaethu lle nad yw'r elfen gwahaniaethu wedi'i mynegi'n amlwg, ac i ddeall safbwynt yr achwynydd yn well.**

**Mae heddluoedd Swydd Bedford, Swydd Gaergrawnt a Swydd Hertford wedi gweithio'n agos gyda chynghorwr annibynnol o'u panel craffu i ddyfeisio fframwaith i gynorthwyo'r rhai sy'n delio â chwynion. Mae'r fframwaith yn mynd â'r defnyddiwr trwy broses feddwl strwythuredig i wella'r gydnabyddiaeth ac ymateb i faterion gwahaniaethu gan gynnwys canlyniadau i ymateb i ymddygiad gwahaniaethol.**

**Mae Bwrdd Plismona Lleol Avon a Somerset yn darparu craffu allanol drwy ei Banel Preswylwyr Annibynnol sydd i gyd yn wirfoddolwyr sy'n cynrychioli cymunedau'r ardal. Eu rôl yw gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r heddlu trwy ddarparu adborth ar ffeiliau cwynion sydd wedi'u cwblhau. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt, maent yn adolygu cwynion yn erbyn yr heddlu o safbwynt dinesydd lleol. Mae hyn yn eu caniatâu i herio sut mae'r heddlu yn mynd i'r afael a chwynion mwy cynnil - i helpu gwella a datblygu deallusrwydd diwylliannol.**

**Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda heddluoedd i gefnogi gwelliannau wrth ymdrin â chwynion lleol. Gall datrys cwynion yn effeithlon atal niwed ychwanegol a meithrin ymddiriedaeth ym mhroses gwynion yrheddlu. Ategir hyn gan ein canllawiau diwygiedig ar gyfer ymdrin â honiadau o wahaniaethu. Mae'r diwygiadau yn ymgorffori mewnwelediadau a gafwyd o'n ffocws ar wahaniaethu ar sail hil ac yn gosod y safonau y dylai achwynwyr, teuluoedd a phartïon eraill â diddordeb ddisgwyl pan fydd honiadau o wahaniaethu yn cael eu gwneud yn erbyn yr heddlu. Maent hefyd yn safonau y byddwn yn dal heddluoedd yn eu herbyn pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau a'r safonau a gymhwyswn pan fyddwn yn cynnal ein hymchwiliadau ein hunain.**

**Rydym wedi ymrwymo i wella profiad pobl sy'n defnyddio system gwynion yr heddlu a sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn effeithiol ac yn gyson gan heddluoedd ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys ni ein hunain. Mae gwrando ac ymateb i leisiau ein defnyddwyr gwasanaeth yn helpu i sicrhau ein bod yn ymatebol i'w hanghenion a'u pryderon. Mae'n hanfodol, yn enwedig i unigolion, grwpiau, teuluoedd a chymunedau sy'n teimlo y gwahaniaethir yn eu herbyn i fagu hyder mewn plismona a system gwynion yr heddlu.**





# Casgliad a galwad i weithredu

Ers 2020, rydym wedi gweld ffocws o’r newydd gan heddluoedd yng Nghymru a Lloegr i fynd i’r afael â gwahaniaethu ar sail hil mewn plismona a gefnogir gan Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu. Fodd bynnag, mae'n rhaid ymateb i'r gyfradd newid gyflymach sy’n delio â'r profiadau a’r canlyniadau gwahanol rhwng grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a’u cymheiriaid gwyn er mwyn adfer ymddiriedaeth a hyder ymhlith y cymunedau yr effeithir arnynt.

Er mwyn torri’r cylch diffyg ymddiriedaeth rhwng cymunedau a’r heddlu mae angen ymdrech ar y cyd a chydweithredol sydd wedi'i wreiddio mewn gweithredu ac ymgysylltu ystyrlon, yn enwedig ar gyfer plant. Pan fydd plant yn parhau i brofi, gweld neu ganfod arferion gwahaniaethol ac anghymesur, mae'n dilysu ac yn dyfnhau'r ddrwgdybiaeth sy'n aml yn cael ei drosglwyddo o genedlaethau blaenorol. Gall y cylch parhaus hwn atgyfnerthu agweddau negyddol tuag at blismona, gan ei gwneud yn anos i ailadeiladu perthnasoedd a gweithio'n gydweithredol.

Mae ein galwad i weithredu i blismona ymateb i'r problem o wahaniaethau hiliol drwy wella'r defnydd o bwerau'r heddlu ar blant, yn cymryd cam hanfodol tuag at adeiladu sylfaen well ar gyfer plismona a chysylltiadau cymunedol. Yn yr un modd, pan ymdrinnir â chwynion gwahaniaethu yn fwy gofalus ac effeithiol, mae'n helpu i ailadeiladu hyder y cyhoedd a chreu gwasanaeth y mae mwy o ymddiriedaeth ynddo.

Mae'r cyfrifoldeb ar blismona i fynd i ymateb i wahaniaethu ar sail hil yn rhagweithiol ar bob lefel trwy arweinyddiaeth gadarn, goruchwyliaeth a thrin cwynion lle mae cael ei brofi neu ei ganfod. Trwy ddangos ymrwymiad gwirioneddol i wella yn y maes hwn, gall plismona ailadeiladu perthnasoedd â’r cymunedau y mae’n eu gwasanaethu a rhoi gwasanaeth y mae pob cymuned yn ei barchu ac yn ymddiried ynddo.

## Ein galwad i weithredu yw i blismona:

- Weithredu newid bwriadol a mesuradwy ar gyfer cymunedau lleol o ran:
  - Anghydraddoldebau hiliol a'r defnydd o bwerau'r heddlu, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â phlant. Dylai hyn gynnwys ffocws ar wella arferion stopio a chwilio, y defnydd o rym a noeth-chwilio, trwy ddarparu mesurau diogelu effeithiol i liniaru tuedd oedolyneiddio[1] a sicrhau triniaeth deg.
  - Ymdriniaeth yr heddlu â chwynion yn ymwneud â gwahaniaethu – gan sicrhau bod cwynion yn cael eu trafod yn effeithiol y tro cyntaf yn unol â chanllawiau diwygiedig SAYH ar gyfer ymdrin a honiadau o wahaniaethu).

## Ein hymrwymiad yn SAYH yw i:

- Gydweithio â phlismona, comisiynwyr heddlu a throseddu, meiri a rhanddeiliaid allweddol eraill i wella ymddiriedaeth a hyder mewn plismona a system gwynion yr heddlu. Darparu cymorth i wella’r modd yr ymdrinnir â honiadau sy’n ymwneud â gwahaniaethu.

1. Mae rhagfarn oedolyneiddio yn fath o ragfarn lle mae plant o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu hystyried yn fwy ‘strydgall’, yn fwy ‘aeddfed’, yn llai diniwed ac yn llai agored i niwed na phlant eraill. Mae hyn yn effeithio ar blant Du yn enwedig, a allai gael eu hystyried yn bennaf fel bygythiad yn hytrach na phlentyn sydd ag angen cymorth (Davis a Marsh, 2020; Canolfan y Gyfraith Georgetown ar Dlodi ac Anghydraddoldeb, 2019). Mae’n bosibl hefyd y bydd plant sydd wedi cael eu hoedolyneiddio yn cael eu gweld fel rhai sydd â mwy o ddealltwriaeth o’u gweithredoedd a chanlyniadau eu gweithredoedd. *NSPCC, Diogelu plant sy’n dod o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (2022)*

# Maecyhoedd iadauSAYH yn cwmpasuthem âu yraroi adhn

Mae'r cyhoeddiadau canlynol yn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'n hymchwiliadau a'n hadolygiadau o gwynion ac wedi'u cynllunio i gefnogi plismona i wneud gwelliannau.

- Nodwyd 11 o gyfleoedd ar gyfer Gwasanaeth Heddlu'r Metropolitan i wella stopio a chwilio (Hydref 2020)
- 17 argymhelliad dysgu cenedlaethol i wella defnydd Taser yn dilyn ein hadolygiad thematig o Taser (Awst 2021). Rydym yn mynd i'r afael â phryderon am y defnydd anghymesur o Taser yn erbyn dynion a bechgyn Du, a phobl â phroblemau iechyd meddwl.
- Ymgyrch Hotton – Adroddiad dysgu gyda 15 o argymhellion i fynd i'r afael â materion diwylliannol sylfaenol, bwlio a gwahaniaethu ymhlith swyddogion heddlu o Wasanaeth Heddlu Llundain. (Ionawr 2022)
- 18 argymhelliad cenedlaethol a wnaed yn ein hadroddiad stopio a chwilio cenedlaethol ar gyfres o faterion, gan gynnwys anghymesuredd, tuedd a thrawma. Ebrill 2022
- Cafodd ein rhifyn o FOCUS ei neilltuo i'r ymdriniaeth o faterion yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil - yn enwedig lle nad yw'r gwahaniaethu yn amlwg nac yn "agored". (Rhagfyr 2022)
- Adroddiad arolwg stopio a chwilio cenedlaethol yn crynhoi arferion stopio a chwilio lleol i wella'r defnydd a chraffu ar stopio a chwilio (Hydref 2023).
- Canllawiau ar gyfer ymdrin â honiadau o wahaniaethu (Tachwedd 2024)



# Cyfeiriadau


- Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 - Atodlen 2
- Ymchwiliad Stephen Lawrence - Syr William Macpherson o Cluny
- Adolygiad y Farwnes Casey - adolygiad o safonau ymddygiad a diwylliant mewnol Gwasanaeth Heddlu Llundain.
- Cod Moeseg y Coleg Plismona
- Adroddiad Macpherson: Dwy flynedd ar hugain yn ddiweddarach
- Inclusive Britain: Government response to the Commission on Race and Ethnic Disparities – UK Government Race Disparity Unit
- Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu – Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
- Ymchwiliad Angiolini, 2024 - Adroddiad rhan 1 - Chwefror 2023
- SAYH – YonderPublic Perceptions Tracker Summary Report, 2023/24
- Tystiolaeth Lafar - Adroddiad Macpherson: ugain mlynedd ymlaen - Pwyllgor Materion Tŷ'r Cyffredin
- Pwerau a gweithdrefnau'r heddlu: Stopio a chwilio ac arestio, Cymru a Lloegr, y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024 - Y Swyddfa Gartref
- Defnydd anghymesur o bwerau'r heddlu – Sylw ar stopio a chwilio a defnyddio grym – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi
- Pwerau Stryd yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol: rheoleiddio a disgresiwn mewn cyfnod o newid – Geoff Pearson a Mike Rowe
- Pa ddisgresiwn sydd ei angen arnoch chi?' Ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r heddlu ynghylch troseddau canabis yn eu meddiant - Sharon Grace, Charlie Lloyd, a Geoff Page
- The Colour of Injustice: 'Race', drugs and law enforcement in England and Wales – Michael Shiner, Zoe Carre, Rebekah Delsol a Niamh Eastwood
- The role of prejudicial stereotypes in the formation of suspicion: An examination of operational procedures in stop and search practices - Rashid Minhas and Dave Walsh
- Crime, policing and stop and search: Black perspectives in context – Crest Advisory
- Defnydd yr heddlu o ystdadegau lluoedd, Cymru a Lloegr: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 – Swyddfa Gartref
- Adroddiad o Adolygiad Annibynnol marwolaethau a digwyddiadau Difrifol yn Nalfa'r Heddlu - Gwir Anrh. Y Fonesig Elish Angiolini DBE QC
- Police Use of TASER: Multi-Level Predictors of Firing and Drawing in One-to-One Use of Force Incidents - Abi Dymond, Katharine A. Boyd a Paul Quinton
- Taser and Social, Ethnic and Racial Disparities research programme – Prifysgol Keele
- Safeguarding children from Black, Asian and minoritised ethnic communities –NSPCC Learning
- Adultification bias within child protection and safeguarding – Jahnine Davis, Arolygiaeth Profiannaeth Ei Fawrhydi
- Boys to men: the cost of 'adultification' in safeguarding responses to Black boys – Jahnine Davis and Nicholas Marsh
- IOPC Youth Panel national survey report - Mai 2024
- NPCC Children and Young Persons Policing Strategy 2024-2027




# Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Wahaniaethu ar sail Hil, a sefydlwyd gennym i gefnogi'r gwaith hwn. Rydym yn ddiolchgar am eu mewnwelediad gwerthfawr, eu her a'u hadborth adeiladol, sydd wedi llywio ein canfyddiadau a'n cyflawniadau.

Mae'r grŵp wedi esblygu dros amser, ac rydym am ddiolch yn arbennig i
Montell Neufville,
Dr Mike Rowe,
Josie Allan – Pobl ar Goll,
Andy George,
Dr. Angela Herbert,
Habib Kadiri – StopWatch,
Dr Geoff Pearson,
Alison Lowe,
Prif Gwnstabl Amanda Pearson
a Dr Michael Shiner
am eu cefnogaeth a'u harweiniad trwy gydol oes y gwaith hwn.

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am y cynllun hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:


**www.policeconduct.gov.uk**

Dilynwch ni:

X: **@policeconduct**

Instagram: **@policeconduct**

E-bostiwch ni: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

Ffoniwch ni: **0300 020 0096**

Negeseuwch: **18001 0207 166 3000**

Ysgrifennwch atom yn:

**SAYH**
**Blwch Post 473**
**Sale M33 0BW**



Tachwedd 2024



**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2025)**

OGL Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon.
Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID® CSE